

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

13/2019

DYDDIAD CYHOEDDI:

19/03/2019

Adnewyddu democrataidd:

Tystiolaeth gyfunol o blaid diwygio
etholiadol ym maes llywodraeth leol

Adnewyddu democrataidd:

Y dystiolaeth gyfunol o blaid diwygio etholiadol ym maes
llywodraeth leol

Awduron: Merisha Hunt a Sophie Nickson (Gwasanaethau
Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru)

Adroddiad Ymchwil Llawn: Hunt, M. a Nickson, S. (2019). *Adnewyddu democrataidd: Y dystiolaeth gyfunol o blaid diwygio etholiadol ym maes llywodraeth leol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 13/2019.>
Ar gael yn: <https://gov.wales/statistics-and-research/democratic-renewal-evidence-synthesis-support-local-government-electoral-reform/?lang=cy>

Mae'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn yn rhai o eiddo'r
ymchwilwyr ac nid o reidrwydd yn rhai Llywodraeth Cymru.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch gyda:

Merisha Hunt

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 03000 628345

Merisha.Hunt003@llyw.cymru

Tabl y Cynnwys

Geirfa	2
1. Rhagarweiniad	3
2. Diffinio adnewyddu democrataidd	4
3. Ymgysylltu dinesig a democrataidd	7
4. Troi allan i bleidleisio	17
5. Ymestyn y bleidlais.....	28
6. Sylwadau i gloi	35
Dogfennau Cyfeiriol	38
Atodiad A: Methodoleg.....	45

No table of contents entries found.

Geirfa

<i>Acronym neu Derm Allweddol</i>	<i>Diffiniad</i>
BME	Grwpiau Du a Lleiafrifol Ethnig
DiD	Amrywiaeth mewn Democratiaeth
ERO	Swyddogion Cofrestru Etholiadol
UE	Yr Undeb Ewropeaidd
FPTP	Y Cyntaf i'r Felin
KAS	Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (Llywodraeth Cymru)
ALI	Awdurdod Lleol
AS	Aelod Seneddol (yn y DU)
PB	Cyllidebu Cyfranogol
STV	Y Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy

1. Rhagarweiniad

- 1.1 Yn 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn yn cyflwyno'r agenda ddiwygio strategol ym maes llywodraeth leol yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2015) gan gynnig nifer o fesurau, yn cynnwys sut i ddarparu democratiaeth yn well.
- 1.2 Mae darparu democratiaeth, yn ôl yr hyn a ddiffinnir yn y Papur Gwyn, yn fater o sicrhau bod y cyhoedd yn defnyddio eu llais, ac felly eu pleidlais, i wella'r gwasanaethau cyhoeddus a dderbyniant. Mae hyn yn cyd-fynd yn agos â'r cysyniad o adnewyddu democrataidd, sef yr arfer o 'addasu sefydliadau llywodraeth leol i'w gwneud yn fwy democrataidd' (Pratchett, 1999, p. 1).
- 1.3 Ers Papur Gwyn 2015, cynhaliwyd digwyddiadau ymgynghori pellach â'r cyhoedd gan arwain at gynnig i ddiwygio llywodraeth leol a rhaglen o adnewyddu democrataidd yn ymwneud ag:
- a. cael dinasyddion i ymgysylltu yn y broses ddemocrataidd;
 - b. troi allan i bleidleisio, gan gynnwys drwy ymestyn y bleidlais (Pwyllgor Deisebau, 2018).
- 1.4 I helpu i oleuo'r broses o ddatblygu a gweithredu diwygio etholiadol ym maes llywodraeth leol yng Nghymru, gofynnwyd i'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (KAS, Llywodraeth Cymru) gyfuno a gwerthuso'r dystiolaeth berthnasol a chanolbwyntio'n benodol ar sut i hyrwyddo ymgysylltiad pobl mewn prosesau democrataidd.
- 1.5 Cyflawnir y nod hwn drwy gyfuno'r dystiolaeth ar gyfer y canlynol:
- diffiniadau a'r ffactorau sy'n ysgogi adnewyddu democrataidd;
 - ymchwil i ymgysylltu dinesig a democrataidd;
 - ymchwil i ymgysylltu (a phleidleisio) mewn llywodraeth leol; ac
 - ymchwil i ymestyn y bleidlais i'r grwpiau hynny o bobl a gynigiwyd yn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y mater.
- 1.6 Eglurir y fethodoleg ar gyfer y dystiolaeth gyfunol hon yn Atodiad A.

2. Diffinio adnewyddu democrataidd

- 2.1 Mae'r adran yma o'r adolygiad yn ceisio crynhoi beth yw adnewyddu democrataidd a pham ei fod yn arfer gwerthfawr.

Beth yw adnewyddu democrataidd?

- 2.2 Yn ôl Pratchett (1999), mae theori democratiaeth yn aml yn annelwig ac yn cael ei ddiffinio ar sail cyfres eang o egwyddorion yn hytrach na disgrifiad penodol. Ystyrir bod adnewyddu democrataidd, felly, yn gynhenid amwys (ibid). Oherwydd yr amrywiol ffyrdd y gallai pobl synied am adnewyddu democrataidd, mae'n bwysig egluro sut y bydd y ddogfen hon yn ei ddiffinio a'i ystyried.
- 2.3 Un ffordd o ystyried adnewyddu democrataidd yw drwy'r hyn sydd ymhlyg yn yr hyn y mae'n ei awgrymu. Mae'r term yn awgrymu bod democratiaeth ar hyn o bryd yn methu, neu'n ddiffygiol, ac felly bod angen ymchwilio i'r broblem a'i chywiro (Pratchett, 1999).
- 2.4 O gofio bod darparu democratiaeth yn ymwneud â sicrhau bod y cyhoedd wedi eu cynrychioli (Llywodraeth Cymru, 2015), gellid hefyd edrych ar adnewyddu democrataidd fel dull o wella cynrychiolaeth¹. Un ffordd o wneud hyn yw drwy sicrhau bod ein cynrychiolwyr etholedig yn ymdebygu i'r etholaeth ond mae rhai grwpiau fel merched, pobl ifanc, grwpiau BME a phobl gyda chyrhaeddiad addysgol is, yn parhau i fod wedi eu tangynrychioli ymhlith cynghorwyr sir a chymuned etholedig (Broomfield, 2013; Murphy & Jones, 2018; Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2017). Gallai diffyg cynrychiolaeth deg mewn llywodraeth leol arwain at bolisïau nad ydynt yn adlewyrchu'r materion sy'n bwysig i grwpiau wedi'u tangynrychioli a dadleuwyd hefyd y gallai arwain at ddieithrio pleidleiswyr o grwpiau wedi'u tangynrychioli (Scully, et al., 2004). Mae cynrychiolaeth deg mewn llywodraeth leol yn cael ei ystyried fel rhan o brosiect ymchwil arall a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, sef gwerthuso'r Rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth.
- 2.5 Yn ogystal â sicrhau bod cynrychiolwyr etholedig yn ymdebygu i'w hetholwyr o ran demograffeg, mae hefyd yn bwysig eu bod yn gwrando ar y cyhoedd. Fel hyn, gwelwn fod adnewyddu democrataidd yn effeithio ar ymddygiad pleidleisio, fel cael mwy o bobl i bleidleisio ac ymestyn y bleidlais i rai sy'n gymwys i bleidleisio.

¹ Mae'r cwestiwn o gynrychiolaeth deg mewn llywodraeth leol yn cael ei ystyried yn fwy manwl fel rhan o ymchwil wedi'i chomisiynu gan Lywodraeth Cymru i werthuso'r rhaglen [Amrywiaeth mewn Democratiaeth](#).

2.6 Gallai adnewyddu democrataidd hefyd gynnwys dirprwyo llywodraethu (Monkerud, 2007). Mae hyn yn ymwneud â dwy farn wahanol am ddemocratiaeth: democratiaeth gystadleuol gyda'r ffocws ar y syniad mai gwleidyddion etholedig sy'n rheoli, neu ddemocratiaeth gyfranogol lle mae'r bobl yn rheoli ochr yn ochr â chynrychiolwyr (ibid). Mewn democratiaeth gyfranogol, mae'n bwysig edrych y tu allan i lywodraeth – sef sefydliadau ffurfiol y wladwriaeth, a thuag at lywodraethu – sef prosesau'r llywodraeth o ddylanwadu a negodi â'r sectorau preifat, cyhoeddus a'r trydydd sector (Hambleton, 2004). Drwy fabwysiadu persbectif llywodraethu, cydnabyddir nad yw gwasanaeth llywodraeth yn gallu llwyddo ar ei ben ei hun a bod angen cyfranogiad y cyhoedd fel defnyddwyr, cwsmeriaid a dinasyddion os am llwyddo (ibid). Mae'r farn yma'n golygu bod llywodraethau'n dirprwyo rhai cyfrifoldebau i'w hetholwyr.

2.7 Yn fyr felly, gellir synied am adnewyddu democrataidd fel:

- cysyniad sy'n pwysleisio bod angen gwella'r arferion democrataidd presennol;
- ffordd o sicrhau cynrychiolaeth decach drwy ymddygiad pleidleisio, y cynrychiolwyr a ddewisir, ac ymestyn y bleidlais; a
- ffordd o ddirprwyo pŵer o lywodraeth i'r gymuned.

Pam fod adnewyddu democrataidd yn bwysig?

2.8 Mae llywodraethau o gwmpas y byd wedi cofnodi gwahanol resymau dros droi at bolisiâu adnewyddu democrataidd, er enghraifft dechreuodd Norwy raglen o adnewyddu democrataidd o ganlyniad i bryder eang bod llai o bobl yn troi allan i bleidleisio (Monkerud, 2007). Nid yw'r dystiolaeth yn awgrymu bod llai o bobl yn troi allan i bleidleisio'n broblem mewn etholiadau lleol yng Nghymru, gyda'r ganran a bleidleisiodd yn etholiadau llywodraeth leol Cymru yn 2017 yr un fath ag yn 2004 sef 42 y cant (Y Comisiwn Etholiadol, 2017b). Er nad yw'r ganran sy'n troi allan yn lleihau yng Nghymru, nid oes yr un etholiad llywodraeth leol yng Nghymru wedi llwyddo i gael 45 y cant² yn troi allan yn y deng mlynedd diwethaf (Blair & Mathias, 2017), sy'n awgrymu bod apathi ymhlith pleidleiswyr yng Nghymru efallai'n bryder,

² Dylid nodi bod y troi allan hwn ar draws Cymru'n gyffredinol a bod amrywiad helaeth mewn troi allan rhwng wahanol awdurdodau lleol. Er enghraifft, yn etholiadau lleol 2017, roedd lefel y troi allan yn amrywio rhwng 36 y cant yng Nghasnewydd a 53 y cant yng Ngheredigion (Comisiwn Etholiadol 2017b).

yn enwedig ar gyfer etholiadau lleol. Oherwydd y credir fod adnewyddu democrataidd yn gwrthsefyll apathi ymhlith pleidleiswyr (Monkerud, 2007), gallai'r cyfiawnhad yn Norwy dros ei fabwysiadu hefyd fod yn berthnasol i Gymru.

- 2.9 Mae ymchwil o'r Unol Daleithiau hefyd yn edrych ar resymau dros gyflwyno adnewyddu democrataidd (Hambleton, 2004), rhai ohonynt wedi eu gyrru gan ddisgwyliadau'r cyhoedd y daw awdurdodau lleol yn fwy effeithiol ac effeithlon. Disgrifiodd yr ymchwilwyr hyn hefyd fod pobl yn gynyddol am i bŵer gael ei weld fel ennill canlyniadau drwy gydweithredu â grwpiau eraill yn hytrach na thrwy eu rheoli.
- 2.10 Yn y DU, nododd Cox et al (2014) fod y cyhoedd yn Lloegr wedi dadrithio gyda'r sefyllfa fel y mae hi ac am weld newid mewn darparu gwasanaethau cyhoeddus. Rhoddir tystiolaeth o blaid yr angen am adnewyddu democrataidd yng Nghymru yn Archwiliad Cymdeithas Hansard o Ymgysylltu Gwleidyddol, a nododd bryderon am yr argraffiadau sydd gan bobl fod eu dylanwad yn isel, gyda bron i hanner yr ymatebwyr yng Nghymru³ yn credu nad oes ganddynt unrhyw ddylanwad o gwbl ar benderfyniadau cenedlaethol (Cymdeithas Hansard, 2018). Yn ogystal, a chanfyddiad sy'n arbennig o berthnasol o ystyried y ffocws presennol ar lywodraeth leol, dim ond un o bob deg o unigolion a holwyd yng Nghymru a deimlai fod ganddynt unrhyw ddylanwad yn lleol (ibid). O ystyried bod ymchwilwyr wedi awgrymu bod yr argraff o ddiffyg grym gwleidyddol yn gallu gwneud rhywun yn llai tebygol o bleidleisio (Cymdeithas Seicolegol Prydain, 2016), gallai'r argraffiadau hyn o ddylanwad isel fod yn rheswm arall dros fabwysiadu adnewyddu democrataidd.

³ Roedd maint yr is-sampl ar gyfer Cymru'n gymharol fach (108 cyfweiliad), felly dylid pwylo cyn cyffredinolli'r ffigurau hyn yn erbyn y boblogaeth ehangach.

3. Ymgysylltu dinesig a democrataidd

- 3.1 Mae'r adran yma o'r adolygiad yn ceisio crynhoi tystiolaeth o ymgysylltu dinesig, sef y ffordd y mae dinasyddion yn cymryd rhan yn eu cymuned i'r pwrpas o'i gwella (Adler & Goggin, 2005), ac ymgysylltu democrataidd, sy'n ymwneud ag arferion democrataidd, gwleidyddol a chymdeithasol yn hytrach nag arferion cymunedol yn unig (Delli Carpini, 2004).

Cymhellion dros ymgysylltu dinesig

- 3.2 Mae Batson et al (2002) wedi adnabod pedwar dosbarth o gymhellion dros ymgysylltu dinesig:
- egoistiaeth: cynyddu lles personol;
 - allgaredd: cynyddu lles pobl eraill;
 - cyfunoliaeth: cynyddu lles grŵp; a
 - egwyddoriaeth: cynnal egwyddorion moesol.
- 3.3 O'r cymhellion hyn, ystyrir mai allgaredd a chyfunoliaeth yw'r rhai mwyaf pwerus er bod gan y ddau eu diffygion o ran y medrant arwain at eithrio unigolion nad ydynt yn cael eu hystyried i fod yn rhan o fewn-grŵp (ibid).
- 3.4 Mae ymchwil i annog ymgysylltiad pobl nad ydynt efallai'n cyfranogi'n rheolaidd, ond y gellir eu hannog i wneud hynny, wedi edrych ar bum ffactor allweddol yn ymwneud ag ymddygiad dinesig:
- ymddiried mewn sefydliadau llywodraethol;
 - cymhellion moesol;
 - normau ymddygiad da;
 - teimladau am eu cymdogaeth; a
 - statws economaidd-gymdeithasol a ffactorau demograffig eraill (John, et al., 2010).
- 3.5 Ymchwiliwyd i'r ffactorau hyn o ran pa ymddygiad dinesig yr oeddent yn gysylltiedig â fo a chanfuwyd fod teimlo'n gadarnhaol am y gymdogaeth yn gysylltiedig â sawl gwahanol math o ymddygiad dinesig. Roedd yn ffactor bwerus i ddarogan ymddygiad dinesig a hefyd yn gymhelliad cryfach na normau cymdeithasol neu gymhellion moesol.

- 3.6 Roedd ffactorau oedd yn gysylltiedig â'r teimladau cadarnhaol am y gymdogaeth y soniwn amdanynt uchod yn cynnwys bod yn driw i grwpiau ac uniaethu â phobl yn y gymdogaeth, gyda ffactorau pwysig eraill yn cynnwys ymlyniad at y gymdogaeth, ysbryd cymunedol a phwysau cymdeithasol gan bobl neu grwpiau cymharus (John, et al., 2010).
- 3.7 Os yw ysbryd cymunedol yn ffactor bwysig, yna gellir dadlau bod ymchwilio i'r ffactorau sy'n ysgogi hynny'n ddefnyddiol i ddeall sut i annog ymddygiad dinesig. Mae'r prif bersbectif theoretig ar hyn yn cynnig pedair ffactor sy'n cryfhau ysbryd cymunedol: aelodaeth; dylanwad; integreiddio a chwrdd ag anghenion; a rhannu cysylltiadau emosiynol (McMillan & Chaivs, 1986).
- 3.8 Hyd yn oed pan fydd dinasyddion yn teimlo'n gryf am yr hyn sy'n digwydd yn eu cymuned, medrant fod yn apathetig am eu rhan bersonol hwy mewn gwasanaethau (Rai, 2008). Efallai na fydd rhai am fod yn rhan o ddemocratiaeth leol beth bynnag yw'r ffactorau y byddai rhywun yn disgwyl iddynt hyrwyddo ymgysylltu (Pwyllgor Dethol Ty'r Cyffredin ar Weinyddiaeth Gyhoeddus, 2011).
- 3.9 I rai sydd eisiau cymryd rhan neu gyfranogi, gall lefel uchel o frwdfrydedd leihau dros amser am nifer o resymau. Mewn rhai sefyllfaoedd, mae ymrwymadau eraill yn cael blaenoriaeth (Boviard & Loeffler, 2012), ond i bobl eraill efallai mai sefydliadau cyhoeddus a fyddai'n llesteirio eu hymdrechion i gymryd rhan (John, et al., 2010). Mae hyn yn ymwneud â'r rhwystr mwyaf yn ôl un astudiaeth – sef argraff neu brofiad pobl nad yw cynghorau'n ymateb i ymgynghori (ibid). O'r herwydd, dylid gweld gweithgarwch dinesig fel proses ddwy ffordd lle mae sefydliadau'n galluogi cyfranogi, gan adeiladu ar y syniad o gontract dinesig lle mae cyd-gyfnawid a chyd-ddibynnu'n dylanwadu ar ymddygiad pro-gymdeithasol.
- 3.10 O ystyried y gallai brwdfrydedd y dinesydd leihau os nad ydynt yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi (John, et al., 2010), mae'n bwysig sicrhau bod pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi (Haq, 2008). Gellir gwneud hyn drwy roi statws i ddinasyddion mewn dylunio neu ddarparu gwasanaeth, gan felly ddangos ymrwymiad i gynnwys y dinesydd, cynyddu ymddiriedaeth a chynnal eu cyfranogiad (ibid).

Cymhellion dros ac yn erbyn gan lywodraethau a dinasyddion

- 3.11 Awgryma'r dystiolaeth y gallai fod datgysylltiad rhwng cymhellion y sector cyhoeddus dros annog ymgysylltiad cymunedau a dinasyddion, a chymhellion y cymunedau a'r dinasyddion eu hunain. Gall gwahanol gymhellion fod yn broblem yn hyn o beth, er enghraifft drwy arwain at wrthdaro rhwng llywodraeth a dinasyddion, oherwydd gallai dinasyddion ganfod nad oes ganddynt gymaint o ran mewn rhywbeth ag yr oeddent yn ei ddisgwyl (Pwyllgor Dethol Ty'r Cyffredin ar Weinyddiaeth Gyhoeddus, 2011).
- 3.12 O safbwynt llywodraeth, un cymhelliad posib fyddai gwella lles pobl (Burton, et al., 2004), ac ail gymhelliad yw ei fod yn cael ei weld fel rhywbeth cynhenid dda i'w wneud (Burton, et al., 2004; Holmes, 2011). Pan fydd cymhelliad llywodraeth yn wan, cefnogir y syniad y gallai ymgysylltiad y dinasydd fod yn ddi-daro neu'n ddim mwy na symbolaidd (Yang, 2005). I osgoi ymgysylltu symbolaidd, mae'n bwysig i lywodraethau fod yn glir am eu cymhellion dros gynnwys dinasyddion, ac am ddisgwyliadau pobl o faint eu cyfranogiad (Holmes, 2011).
- 3.13 Ar y llaw arall, mae dinasyddion a chymunedau'n tueddu i fod â gwahanol gymhelliad: gwella gwasanaethau neu eu profiad o wasanaethau (Holmes, 2011). Mae drwgdybio sefydliadau cyhoeddus yn ail gymhelliad gan bobl, gydag unigolion mwy drwgdybus efallai'n dangos mwy o awydd i weithredu a'r rhai mwy parod i ymddiried yn teimlo y gellir gadael pethau fel y maent (John, et al., 2010).
- 3.14 Mae rhai awduron yn ystyried ei bod yn anochel bod ymgysylltiad cymunedol yn anwastad (Burton, et al., 2004) – gyda rhai dinasyddion neu grwpiau poblogaeth yn fwy tebygol o gymryd rhan nag eraill o ystyried ei natur wirfoddol – a allai arwain at benderfyniadau gwallus. I oresgyn hyn, rhaid i ddarparwyr gwasanaeth wneud ymdrechion sylweddol i ysgogi gwahanol grwpiau i gymryd rhan (Holmes, 2011). Er bod gwella lles pobl efallai'n gymhelliad gan wasanaethau cyhoeddus, gallai'r ymdrech sydd ei hangen i annog ymgysylltiad cynrychiadol gymell yn erbyn hyn. Cymhelliad arall yn erbyn annog dinasyddion neu gymunedau i gymryd rhan yw ei fod efallai'n creu'r argraff ei bod yn anoddach i lywodraeth gyflawni'r canlyniadau sydd ganddi mewn golwg (John, et al., 2010).

Pwy sy'n ymgysylltu?

Y dinesydd

- 3.15 Yn ôl yr ymchwil, mae pobl hŷn yn fwy tebygol na grwpiau oed eraill o gymryd rhan ym mhob math o ymddygiad dinesig (John, et al., 2010), a phobl ar incwm is, grwpiau du a lleiafrifol ethnig (BME), merched, pobl ifanc a phobl ddigartref yn llai tebygol o gymryd rhan neu ymgysylltu (Burton, et al., 2004; Loeffler & Boviard, 2017). Disgrifiwyd pobl sy'n ymgysylltu fel 'y rhai chwilfrydig, y rhai ofnus a'r rhai sydd ar gael' [McComas et al, 2006, pp691-692, fel y dyfynnir yn (Loeffler & Boviard, 2017)], sydd, yn wahanol i lawer o asesiadau eraill, yn edrych ar nodweddion unigolion yn hytrach nag ar grwpiau demograffig.
- 3.16 Cymerir yn aml fod y math o bobl sy'n dangos ymddygiad ymgysylltu dinesig (fel gwirfoddoli yn y gymuned) yr un fath â'r rhai sy'n troi allan i bleidleisio. Yn ôl ymchwil a edrychodd i'r cysylltiad rhwng cyfrifoldeb dinesig a gwirfoddoli, cafwyd fod gwirfoddoli'n gallu helpu i gysylltu pobl i'w cymuned leol a chodi ymwybyddiaeth o faterion lleol. Yn ei dro mae gan hyn botensial i wella ymdeimlad pobl o gyfrifoldeb cymdeithasol, ond prin yw'r dystiolaeth ac mae cyfeiriad yr effaith yn aneglur, h.y. a yw gwirfoddoli'n cynyddu'r ymdeimlad o gyfrifoldeb cymdeithasol neu a yw pobl sy'n teimlo mwy o gyfrifoldeb cymdeithasol yn fwy tebygol o wirfoddoli (WISERD, 2018a)⁴.
- 3.17 Un ffactor olaf sydd fel pe bai'n dylanwadu ar ymgysylltu mewn gweithgareddau dinesig neu ddemocrataidd yw lles. O ddadansoddi data arolwg hydredol, cynigiwyd fod y lefel hapusrwydd optimaidd ar gyfer cyfranogi gwleidyddol fymryn yn is na lefel y grŵp hapusrwydd mwyaf (Oishi, et al., 2009), sy'n dangos nad yw'r berthynas rhwng cyfranogi gwleidyddol a lles yn unionsyth. Awgryma'r canfyddiad hwn fod polisïau gwella lles yn hwyluso ymgysylltu dinesig neu ddemocrataidd i fyny at bwynt, gan gefnogi'r canfyddiad bod anfodlonrwydd yn gallu bod yn gymhelliad dros ymgysylltu (Haro-de-Rosario, et al., 2018).
- 3.18 Mae gan bobl argraff yn gyffredinol bod cyfranogi gweithredol yn haws i bobl dosbarth canol (Rai, 2008). Ymddengys bod yr argraff yma'n cyfarwyddo ymyriadau sector cyhoeddus o gofio bod eu ffocws ar annog grwpiau o dan anfantais i ymgysylltu (Blakeley, 2010), er y diffyg tystiolaeth ar gyfer y safbwynt hwn (Rai,

⁴ Bydd y prosiect ['Gweithredu Cymdeithasol fel Llwybr i'r Blwch Pleidleisio'](#) yn profi'r ddamcaniaeth hon drwy ganfod barn gwirfoddolwyr ifanc am ddyletswydd ddinesig dros gwrs eu profiadau gwirfoddoli (ibid).

2008). Gall penderfyniad y sector cyhoeddus i ganolbwyntio ar grwpiau o dan anfantais arwain at ganlyniadau negyddol anfwriadol, fel gorlwytho grwpiau o dan anfantais â myrdd o weithgareddau yr anogir hwynt i'w cyflawni (Blakeley, 2010).

Y sector cyhoeddus.

- 3.19 Fel y nodwn uchod, nid yw'r penderfyniad i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned yn gorwedd gyda'r dinesydd yn unig: mae gan y sector cyhoeddus hefyd rôl bwysig i'w chwarae mewn penderfynu pwy sy'n gallu cyd-ysgwyddo'r cyfrifoldeb am ddylunio, darparu a llywodraethu gwasanaethau (Geddes, 2006). Drwy ganolbwyntio ymyriadau ar grwpiau penodol, creu systemau sydd angen sgiliau penodol ar eu cyfer a dewis pwy a ddylai gael eu cynrychioli, mae'r sector cyhoeddus yn penderfynu o fewn pa baramedrau y gall pobl ddewis cyfranogi (Blakeley, 2010; Burton, et al., 2004; Geddes, 2006; Oostveen & van de Besselaar, 2004).

Ffactorau sy'n dylanwadu ar lwyddiant ymgysylltu

- 3.20 Gall lefelau ymgysylltu dinesig amrywio o ymgysylltu goddefol (e.e. derbyn gwybodaeth gan lywodraeth) i ymgysylltu gweithredol (er enghraifft, rhedeg cynllun cyllidebu cymunedol). Er yn amrywio, daw pum thema'n glir wrth asesu ffactorau sy'n dylanwadu ar ymgysylltu llwyddiannus:

- cyd-destun lleol;
- arweinyddiaeth;
- agweddau gweinyddwyr cyhoeddus;
- perchnogaeth; a
- maint y newid.

Cyd-destun lleol

- 3.21 Yn ôl Burall a Carr-West (2009), mae dylanwad y cyd-destun lleol nid yn unig yn dylanwadu ar y wybodaeth sydd gan ddinasyddion, ond hefyd eu hargraff o ba mor bwysig yw materion penodol a'u perthynas â darparwyr gwasanaethau cyhoeddus.
- 3.22 Ymddengys nad y cyd-destun lleol ar y pryd sy'n dylanwadu ar lwyddiant ymgysylltu. Mae hanes yr ardal hefyd yn bwysig, er enghraifft yn hanesyddol ym Manceinion, yr ardaloedd lle'r oedd cyfranogi da gan ddinasyddion oedd yr

ardaloedd diwydiannol a nodweddid yn drwm gan yr undebau a gweithredu ar y cyd (Blakeley, 2010).

Arweinyddiaeth

- 3.23 Yn ôl ymchwil mae gwahanol rannau o arweinyddiaeth yn bwysig, er enghraifft yn ôl rhai mae angen arweinyddiaeth gref i newid diwylliant fel bod pobl yn ymgysylltu, ac i'w cynnwys mewn dylunio a darparu gwasanaeth (Rai, 2008). Dadl eraill yw bod angen i arweinyddiaeth gref fod yn garismatig, neu fod arweinyddiaeth barhaus yr un mor bwysig i'r carisma hwn (Blakeley, 2010).
- 3.24 Fel y nodwn uchod drwy gynnwys arweinyddiaeth barhaus fel ffactor allweddol, nid oes angen i arweinyddiaeth lwyddo oherwydd nodweddion cynhenid yr arweinydd. Cafwyd hefyd fod hyfforddiant arweinyddiaeth ddinesig yn cynyddu cyfranogi ac ymgysylltu mewn gwleidyddiaeth, er enghraifft gan arwain at fwy o bobl yn mynychu cyfarfodydd neuadd y dref a mwy o gyfranogi â swyddogion lleol (Tsai, et al., 2018). Awgryma'r ymchwil yma fod modd gwella arweinyddiaeth fel ffactor ddylanwadol a hynny yn ei dro'n awgrymu ymyriad posib ar gyfer gwella ymgysylltiad y dinesydd.

Agweddau gweinyddwyr cyhoeddus

- 3.25 Mae agweddau gweinyddwyr cyhoeddus yn effeithio ar ymgysylltu oherwydd, i lwyddo, mae ymchwilwyr yn dadlau bod angen ymddiriedaeth rhwng y llywodraeth a dinasyddion (The Hague Academy for Local Government, 2018). Ac mae angen i weinyddwyr cyhoeddus ymddiried mewn dinasyddion er mwyn defnyddio eu gwybodaeth a'u gweithredu lleol i rannu grym (Yang, 2005).
- 3.26 Gall ymddiriedaeth hefyd leihau pryderon y llywodraeth ganolog, lle mae diwylliant o fod ag ofn cynnwys pobl mewn darparu gwasanaethau (Pwyllgor Dethol Ty'r Cyffredin ar Weinyddiaeth Gyhoeddus, 2011). Mae'n ddealladwy gydag agweddau negyddol gan weinyddwyr cyhoeddus at gynnwys y dinesydd mai ychydig iawn o gyfle a fyddai i gyflwyno adnewyddu democrataidd ac o'r herwydd llai o gyfle i ymgysylltu.

Perchnogaeth y dinesydd

- 3.27 Daeth astudiaeth achos gan Blakeley (2010) o gynllun gweithredu strategol gan ddinas i'r casgliad fod cyfranogiad y dinesydd wedi'i gynorthwyo gan y ffaith bod y cynllun yn cael ei weld fel 'cynllun gweithredu ar gyfer y ddinas' yn hytrach na

chynllun gan neu ar gyfer cyngor y ddinas' (Blakeley, 2010). Fel hyn, ystyriwyd bod gan y cynllun fwy o werth i ddinasyddion (ibid).

- 3.28 Mae gan berchnogaeth y dinesydd o gynllun weithiau ei anfanteision hefyd, er enghraifft gallai symud penderfyniadau ac atebolrwydd i ffwrdd o'r bobl sydd â mandad etholiadol i'w gwneud (Griffiths, et al., 2009). Gallai hefyd achosi gwrthdaro rhwng llywodraeth a'r bobl, oherwydd y gwahaniaeth yn eu hargraffiadau o'r hyn sy'n bwysig (Boviard & Loeffler, 2012). Ystyrir bod dinasyddion yn rhoi mwy o bwyslais ar y *broses* o dderbyn gwasanaeth ond bod llywodraethau'n rhoi mwy o werth ar *ganlyniad* y dinesydd yn derbyn gwasanaeth (ibid). Gallai perchnogaeth hefyd gael ei *rhannu* rhwng dinasyddion a'r awdurdodau, yn hytrach na bod y naill neu'r llall yn llwyr berchnogion (Goedkoop & Devine-Wright, 2016). Gallai hyn ddod yn ôl at y broblem sy'n codi o dan 'agweddau gweinyddwyr cyhoeddus', lle daw ymddiriedaeth rhwng yr actorion yn ffactor hwyluso allweddol neu'n rhwystr.

Maint y newid

- 3.29 Ymddengys mai newid o faint llai yw'r ffordd fwyaf llwyddiannus o annog pobl i ymgysylltu mewn darparu gwasanaeth, er enghraifft drwy eu cynnwys mewn rhai agweddau ond nid ym mhob un (Holmes, 2011), neu drwy adeiladu ar strwythurau sydd eisoes yn eu lle'n hytrach na thrwy gyflwyno system gwbl newydd (Griffiths, et al., 2009). Un rheswm posib am hyn yw bod ymgysylltu'n dibynnu ar y berthynas benodol rhwng cymunedau, dinasyddion a'r sector cyhoeddus sy'n arwain at wahanol anghenion (ac felly gwahanol ddulliau o ymdrin â'r sefyllfa) gan wahanol ardaloedd (Loeffler & Boviard, 2017). O'r herwydd, nid yw bob amser yn briodol cyflwyno model sy'n llwyddo mewn ardal lai i ardal fwy (ibid).

Dulliau o ysgogi ymgysylltu

Theori procio

- 3.30 Mae gwyddor ymddygiad – neu 'theori procio' fel y caiff ei alw – yn rhoi peth amgyffred i ni o sut y gellir annog pobl i wneud dewisiadau gwell a fydd o les iddyn nhw'n bersonol ac i gymdeithas (Behavioural Insights Team, 2014).
- 3.31 Edrychodd un enghraifft o ddefnyddio prociau ym maes ymgysylltu democrataidd ar roi gwybodaeth i gyfranogwyr am bobl a oedd wedi llofnodi deisebau ar-lein (John, et al., 2010). Drwy roi manylion am faint o bobl a oedd wedi llofnodi, gallai'r ymchwilwyr wella'r siawns o gael cyfranogwyr i lofnodi'r ddeiseb drwy greu pwysau

cymdeithasol (ibid). Edrychwyd ar hyn fel ffordd gost-effeithiol o ddylanwadu ar grwpiau mwy i gynyddu ymgysylltu democrataidd.

- 3.32 Defnyddiwyd prociau hefyd mewn arbrawf perthnasol i ymgysylltu dinesig: i weld pa mor debygol yr oedd pobl o roi arian at achos da (Ariely, et al., 2009). I rai roedd y cymhellion yn gwbl gynhenid, wedi'u hategu gan ffactorau fel allgaredd a dewisiadau moesol. I eraill roedd y cymhellion yn anghynhenid ac felly wedi eu gyrru gan y cynnig o fudd materol neu'r cyfle i ddangos i eraill eu bod yn 'berson da' (ibid). Er mwyn chwarae ar y ddau fath o gymhelliad, casglodd yr ymchwilydd fod addo i wneud cyfraniad ariannol ymlaen llaw ynghyd ag ennill cydnabyddiaeth gyhoeddus wedyn yn arwain at lawer mwy o roddion (ibid). Roedd addo i roi ar ei ben ei hun yn gwella rhoddion (ibid), gan gyd-fynd ag ymchwil sy'n awgrymu bod ymrwymo i roi'n gyhoeddus yn cynyddu'r siawns y bydd pobl yn cadw at hynny (John, et al., 2010).
- 3.33 Un feirniadaeth o'r theori procio o ran cyfranogiad democrataidd yw ei fod yn gweithio drwy dybio bod dinasyddion eisoes yn barod ac abl i gyfranogi ond nad oes ganddynt gymhelliad, ac nid yw hynny bob amser yn wir (ibid).

Dylunio cynhwysol

- 3.34 Gall dylunio cynhwysol helpu i liniaru'r effaith o ymylu grwpiau a eithriwyd, gyda'r cysylltiadau sefydliadol rhwng dinasyddion a'r llywodraeth yn cynnig fframwaith ar gyfer y cyfranogi dinesig sydd mewn golwg. Er hynny, gall diffyg cydnabyddiaeth gan sefydliadau leihau'r cymhelliad i gyfranogi (ibid). Mae cymhelliad pobl i gyfranogi'n llawer mwy tebygol o gael ei gynnal pan fydd sefydliadau:
- yn gwrando ar yr hyn sydd gan bobl i'w ddweud;
 - yn rhoi adborth ar ganlyniad penderfyniadau a wneir;
 - yn gwneud penderfyniadau sy'n cyd-fynd â'r hyn y mae'r rhan fwyaf o bobl yn cytuno â nhw (ibid).
- 3.35 O fodloni'r meini prawf hyn, mae dyluniad y drafodaeth yn gynhwysol o ran bod yn fwy tebygol o greu dinasyddion bodlon wedi'u grymuso sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch dinesig. Mae cyd-ymddiried hefyd yn ffactor hanfodol mewn dylunio cynhwysol, oherwydd gall ymddiriedaeth rhwng gweinyddwyr a dinasyddion wella parodrwydd pobl i gymryd rhan (Yang, 2005). Yr un mor bwysig yw rhoi gwybodaeth

i ddinasyddion, er mwyn eu cysylltu i systemau llywodraethu newydd (Griffiths, et al., 2009; van Rijn & Tissen, 2013).

- 3.36 Mae cyllidebu cyfranogol yn golygu cael aelodau o'r gymuned i gymryd rhan mewn trafodaethau am y blaenoriaethau wrth wario cyllideb gyhoeddus. Awgryma'r dystiolaeth fod y broses yn cynyddu cyfranogiad ac ymgysylltu â llywodraeth leol (Wampler, et al., 2018), yn gwella cyfathrebu rhwng cynghorwyr a dinasyddion, yn codi ymwybyddiaeth cynghorau o'u cymuned a hyd yn oed gyda photensial i gael mwy o bobl i bleidleisio mewn etholiadau lleol (Sgueo, 2016). Yn dilyn adolygu'r dystiolaeth mewn cyd-destun Cymreig, gwnaed argymhellion ar gyfer sut i weithredu cyllidebu cyfranogol yn y dyfodol, gan gynnwys dechrau ar lefel leol drwy adael i'r gymuned bleidleisio ar brosiectau lleol (Williams, et al., 2017).

Technoleg

- 3.37 Yn aml iawn edrychir ar dechnoleg yn yr ystyr e-bleidleisio, ond mae hyn yn cyfyngu ei sgôp posib ar gyfer ymgysylltu democrataidd (Oostveen & van de Besselaar, 2004). Gellid hefyd ei ystyried er mwyn darparu gwybodaeth, i gynnal trafodaeth wleidyddol ac i wneud penderfyniadau (ibid). Gallai gwneud penderfyniadau gynnwys polau piniwn ymgynghorol, gyda mater yn cael ei gyflwyno i'r cyhoedd a thrafodaeth gyhoeddus yn cael ei hyrwyddo cyn gofyn i bobl bleidleisio ar ddewis o blith opsiynau clir ond cyfyngedig (ibid). Gall pobl hefyd ddefnyddio technoleg i gynnig eu safbwynt drwy fforymau, deisebau electronig (e-ddeisebau) neu bolau piniwn, neu dim ond i ddysgu mwy am wleidyddiaeth, pleidiau gwleidyddol a'u hardal leol (John, et al., 2010; Oostveen & van de Besselaar, 2004; Panagiotopoulos & Al-Debei, 2010).
- 3.38 Mae deisebau'n ddefnyddiol o ran gallu rhoi trosolwg ar gredoau cyfunol pobl (Panagiotopoulos & Al-Debei, 2010). Mae e-ddeisebau'n enwedig yn syml a hawdd eu dosbarthu, a heb eu cyfyngu gan sgôp daearyddol. Maent yn gyfrwng i glywed lleisiau ac yn gwella ymatebolrwydd, fel bod awdurdodau'n gallu defnyddio syniadau dinasyddion i oleuo agendâu a pholisïau'n benodol i gwrdd ag anghenion eu cyhoedd (Panagiotopoulos & Al-Debei, 2010; Bochel & Bochel, 2017). Gall systemau deisebu cryf hyd yn oed gyflwyno swyddogaeth addysgol i wella ymwybyddiaeth pobl o'r system wleidyddol (Bochel & Bochel, 2017). Mae sawl astudiaeth achos o blaid rôl e-ddeisebau fel ffordd o hwyluso mewnbyn dinasyddion mewn penderfyniadau a hynny yn ei dro'n gwella prosesau

democrataidd llywodraeth leol (Panagiotopoulos & Al-Debei, 2010; Macintosh, et al., 2002).

- 3.39 Er bod system e-ddeiseb yn ei lle ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru⁵, nid oes llawer o systemau yn eu lle mewn llywodraeth leol yng Nghymru. Soniwyd am nifer o nodweddion sy'n cyfrannu at system e-ddeiseb gref ar lefel leol, gyda'r potensial i gynnig manteision sylweddol fel tryloywder, mynediad uniongyrchol a ffordd i ddinasyddion gael sgysiau gyda swyddogion (ibid).
- 3.40 Awgryma'r ymchwili fod trafodaeth wleidyddol yn fanteisiol i ymgysylltu democrataidd ac mae technoleg newydd yn cynnig cyfleoedd pellach o ran hyn, er enghraifft drwy fforymau trafod ar-lein (Oostveen & van de Besselaar, 2004). Fodd bynnag mae tystiolaeth newydd wedi canfod, er bod fforymau ar-lein yn denu nifer fawr o gyfraniadau (yn enwedig ar bynciau dadleuol), mai dim ond ychydig o newid mewn gwybodaeth a dewis polisi sy'n deillio o hynny (ibid). Mae hyn yn awgrymu er bod technolegau ar-lein yn gallu creu gofod ar gyfer trafod, eu bod yn cael effaith ar ansawdd yr ymgysylltu. Mae'r ymchwili yn priodoli hyn yn rhannol i ddiffyg cyfle i gyd-gyfnewid a rhoi rhesymau – mewn geiriau eraill, y cyfle i gydnabod yr hyn a gyfrannwyd eisoes a chynnig rhesymeg ar gyfer eu cyfraniad (ibid).
- 3.41 Gellid cyflawni'r cyd-gyfnewid hwn drwy dechnolegau newydd. Gall y cyfryngau cymdeithasol roi cyfle i lywodraeth leol gymryd rhan mewn cyfathrebu dwy-ffordd, rhyngweithiol â dinasyddion i wella ymgysylltu a thryloywder (Mergel, 2013). Mae'r cyfryngau cymdeithasol, ynghyd â datblygiadau eraill mewn technoleg fel y We a'r e-bost, hefyd wedi creu mwy o opsiynau ar gyfer newyddiaduraeth drwy'r dinesydd, fel bod sefydliadau llywodraethu'n gallu cyfathrebu'n fwy uniongyrchol a lleol yn hytrach na'n mynd drwy 'allfeydd' proffesiynol mwy. Gallai'r dulliau hyn fod yn arbennig o effeithiol i annog grwpiau anodd eu cyrraedd, fel pobl ifanc, i gymryd rhan (Firmstone & Coleman, 2015).
- 3.42 Mae'r adran hon wedi ystyried y dystiolaeth ar ymgysylltu dinesig a democrataidd, gan nodi'r cymhellion sydd gan ddinasyddion a llywodraeth dros ymgysylltu; sut fath o bobl sy'n tueddu i ymgysylltu mwy; a pha ddulliau y gellid eu defnyddio i ddyfnhau ac ehangu'r ymgysylltu. Mae'r adran nesaf yn troi ei sylw'n benodol at y dystiolaeth ar gyfer troi allan i bleidleisio.

⁵ [System e-ddeiseb yn ei lle ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru](#)

4. Troi allan i bleidleisio

Y system etholiadol

- 4.1 Mae rhai'n dadlau bod y system etholiadol yn chwarae rôl bwysicach gydag egluro pam fod pobl yn pleidleisio mewn etholiadau lleol na mewn etholiadau cenedlaethol (Cancela & Geys, 2016). Ar hyn o bryd, mae etholiadau llywodraeth leol yn defnyddio'r system Cyntaf i'r Felin (FPTP) sydd wedi'i beirniadu am efallai droi pobl i ffwrdd o bleidleisio (Sunderland, 2002).

Cynrychiolaeth gyfrannol

- 4.2 Mae cefnogwyr system Y Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy (STV) yn credu ei bod yn well am sicrhau bod safbwyntiau gwahanol yn cael eu cynrychioli a lleihau faint o seddi nad ydynt yn cael eu herio, fel yn yr Alban a Gogledd Iwerddon (Llywodraeth Cymru, 2018; Curtice, 2012; Sunderland, 2002; Y Gymdeithas Diwygio Etholiadol, n.d). Dangosodd ymgynghori gan Lywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru ar ddiwygio etholiadol yng Nghymru fod pobl o blaid system o gynrychiolaeth gyfrannol (Llywodraeth Cymru, 2018; Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2018).
- 4.3 Y ddadl hefyd yw y byddai'n creu system bleidleisio decach i lywodraeth leol, fel bod modd rhoi safle i ymgeiswyr wrth bleidleisio drostynt a chynyddu'r nifer sy'n troi allan i bleidleisio. Fodd bynnag, prin yw'r dystiolaeth o blaid hyn gyda data o'r Alban yn dangos, ar ôl cyflwyno STV, fod y cydbwysedd rhwng y rhywiau ond wedi gwella fymryn ar gyfer cynrychiolwyr etholedig ac nad oedd dim newid o gwbl yn y nifer oedd yn troi allan i bleidleisio (Curtice, 2012).

Troi allan i bleidleisio mewn etholiadau lleol

- 4.4 Mae'r nifer sy'n troi allan i bleidleisio mewn etholiadau cyffredinol yng Nghymru'n sylweddol fwy nag ar gyfer etholiadau'r Cynulliad ac etholiadau cynghorau lleol (Blair & Mathias, 2017). Fel y gwelwn o Dabl 1 (isod), mae tua dwy ran o dair o'r etholaeth yng Nghymru'n pleidleisio mewn Etholiadau Cyffredinol o'i gymharu â llai na hanner sy'n pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad ac etholiadau lleol.

Tabl 1 – Troi allan i bleidleisio yng Nghymru

	Etholiadau Cyffredinol			Etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru			Etholiadau Cyngorau Lleol		
Blwyddyn	2010	2015	2017	2007	2011	2016	2008	2012	2017
Troi Allan (%)	65	66	69	43	41	45	45	39	42

Ffynhonnell: Y Comisiwn Etholiadol (2017b)

- 4.5 Yn ôl ymchwil gan y Comisiwn Etholiadol yn dilyn etholiadau Llywodraeth Leol 2017, dangoswyd bod lefelau uchel o fodlonrwydd â threfniadau pleidleisio ar y cyfan (Y Comisiwn Etholiadol, 2017b). Felly, nid yw'r broblem gyda chael pobl i droi allan yn ymddangos i fod gyda'r trefniadau eu hunain. Bydd yr adran ganlynol yn trafod y ffactorau demograffig sydd efallai'n effeithio ar droi allan mewn etholiadau lleol yng Nghymru.

Oed

- 4.6 Ers 1997, mae pryder cynyddol bod y cyhoedd ym Mhrydain, a phobl ifanc yn enwedig, yn ymddieithrio mwyfwy o hyd o wleidyddiaeth a democratiaeth (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2007). Heriwyd y farn hon gan dystiolaeth a ddangosodd fod pobl ifanc yn cyfranogi mewn mathau eraill o weithgarwch dinesig a democrataidd, er enghraifft mewn gwirfoddoli, gweithredu gwleidyddol anffurfiol (Roker & Eden, 2002) a chynghorau ieuenctid (Matthews, 2001). Mae eraill wedi dadlau bod yr ymgysylltu hwn mewn gwleidyddiaeth lai ffurfiol yn dangos mai'r mynegiant yn hytrach sydd wedi newid, o'r sianeli traddodiadol i gyfryngau newydd fel y teledu, blogiau, y cyfryngau cymdeithasol a gwefannau (Loader, 2007). Er hyn, mae cyfraddau troi allan i bleidleisio ymhlith pobl ifanc yn parhau i ostwng ac felly ymddengys mai'r broblem yw troi allan i bleidleisio yn hytrach nag apathi gwleidyddol yn gyffredinol (Henn & Foard, 2011). Ni chyfyngir yr effaith i'r DU ychwaith a dengys tystiolaeth o arolygon swyddogol a wnaed yn fuan ar ôl cynnal etholiadau fod patrwm o lai a llai o bobl yn troi allan i bleidleisio i'w weld ar draws Ewrop ers yr 1980au (Oxenham, 2017).

Lefelau addysg

- 4.7 Dangoswyd fod gradd yn cael effaith sylweddol ar wneud rhywun yn fwy tebygol o bleidleisio (Birch, et al., 2014; Cymdeithas Hansard, 2018). Gallai hyn yn rhannol fod oherwydd bod graddedigion yn dod i fwy o gysylltiad â phrosesau a gweithredu gwleidyddol pan fyddant yn y brifysgol (WISERD, 2018b). Mae graddedigion hefyd

yn fwy tebygol na phobl ddi-radd o fod yn ennill mwy a gallai effaith incwm hefyd felly chwarae rhan (Birch, et al., 2014). Mae cysylltiad hefyd rhwng lefelau addysg ac oed, gyda'r lleihad yn nifer y bobl ifanc sy'n troi allan i bleidleisio ym Mhrydain i'w weld yn fwy amlwg ymhlith rhai na chawsant addysg brifysgol. Ers 2001, mae cyfraddau troi allan mewn Etholiadau Cyffredinol ymhlith pobl dan 30 oed heb radd, ar gyfartaledd, 14 pwynt canran yn is nag ar gyfer graddedigion. Yn Etholiad Cyffredinol 2017, roedd y gyfradd troi allan ar gyfer graddedigion dan 30 oed yn 62% o'i gymharu â 38% ar gyfer rhai na chawsant addysg ôl 16 oed (WISERD, 2018b). Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos pwysigrwydd addysg a throi allan i bleidleisio, ond nid ydynt yn egluro'r rhesymau am y gwahaniaeth. Trafodwn rai esboniadau posib isod.

Tarddiad ethnig

- 4.8 Yn y DU, mae pobl BME yn llai tebygol o fod wedi cofrestru i bleidleisio na'r boblogaeth yn gyffredinol. Er enghraifft, yn Etholiad Cyffredinol 2010, roedd 18% o ddinasyddion BME heb gofrestru i bleidleisio o'i gymharu â 7% o ddinasyddion gwyn (Holloway, 2013). Mae'r effaith yn fwy amlwg fyth gyda rhai grwpiau, yn enwedig pobl o darddiad Affricanaidd sydd â chyfraddau heb gofrestru mor uchel â 28% (ibid). Fodd bynnag, er bod y cyfraddau troi allan ar y cyfan yn is nag yn y boblogaeth yn gyffredinol, mae'r cyfraddau ymhlith rhai grwpiau BME yn eithaf ffafriol gyda chyfraddau troi allan hunan-ddywededig yn uwch na'r cyfartalog cenedlaethol ymhlith grwpiau o darddiad Bangladeshaidd, Pacistanaidd ac Indiaidd (ibid). Mae cyfraddau troi allan grwpiau eraill fel rhai o darddiad Affricanaidd a Charibiaidd yn parhau i fod yn isel, felly hefyd bobl ifanc BME, ac un o ganfyddiadau'r Comisiwn Etholiadol yw bod y dirywiad mewn troi allan ymhlith pobl ifanc yn waeth ymhlith y grŵp hwn nag ymhlith pobl ifanc wyn. (Y Comisiwn Etholiadol, 2017c; MORI, 2005).

Esboniadau ar gyfer troi allan mewn etholiadau lleol

- 4.9 Yn ogystal ag edrych ar ffactorau cynhenid fel rhywedd, oed, lefel addysgol a tharddiad ethnig, mae'n bwysig ystyried ffactorau eraill mwy deinamig a allai gael dylanwad ar ba mor debygol yw pobl o bleidleisio. Mae'n werth nodi mai prin iawn yw'r ymchwil i ymddygiad pleidleisio mewn etholiadau lleol yn benodol gyda'r ymchwil yn tueddu i ganolbwyntio ar gymhellion a rhwystrau i bleidleisio'n gyffredinol. Lle'r oedd yn bosib, rhoddir sylw penodol i ymchwil yng Nghymru . Yn

dilyn adolygu data arolwg, daw sawl thema glir i'r golwg a allai fod yn effeithio ar droi allan i bleidleisio (Blair & Mathias, 2017; Sunderland, 2002).

Argraff o bwysigrwydd a dealltwriaeth o etholiadau lleol

- 4.10 O ran argraff o bwysigrwydd, fel y nodwn yn Nhabl 1, mae'r nifer sy'n troi allan yn Etholiadau'r Cynulliad ac etholiadau cynghorau lleol yn is nag ar gyfer Etholiadau Cyffredinol yng Nghymru. Gallai tystiolaeth ryngwladol o effeithiau eilradd, sef yr argraff fod etholiadau rhanbarthol a lleol yn llai arwyddocaol, egluro'n rhannol y gwahaniaeth o ran faint sy'n troi allan i bleidleisio. Fodd bynnag, nid ymddengys bod y gwahaniaethau hyn i'w gweld pan gynhelir etholiadau rhanbarthol ar yr un pryd ag etholiadau cenedlaethol (Scully, et al., 2004; BBC, 2003; Schakel & Jeffrey, 2013).
- 4.11 Awgryma tystiolaeth gwyddor wleidyddol mai teimlo dyletswydd ddinesig i bleidleisio yw'r peth pwysicaf efallai o ran darogan troi allan i bleidleisio (Blais, 2000; Weinschenck & Dawes, 2018). Fodd bynnag, ychydig iawn o ymchwil hyd yma sydd wedi ceisio egluro pam fod gan rai pobl deimlad cryfach o ddyletswydd ddinesig nag eraill. Dengys tystiolaeth ddiweddar fod ffactorau genetig yn cyfrif am rhwng 70% ac 87% o'r cysylltiad rhwng dyletswydd ddinesig a'r Pum Nodwedd personoliaeth pwysig (Weinschenck & Dawes, 2018). Er bod cyfyngiadau i edrych ar rôl personoliaeth fel ffactor gyfryngu, awgryma'r dystiolaeth ddiweddaraf nad yw pobl yn cael eu geni gyda 'llechen lân' wleidyddol ac yn cael eu dylanwadu gan brofiadau bywyd yn unig. Yn hytrach mae pobl yn cael eu geni gyda rhagduediadau sy'n lliwio eu hymgysylltiad â gwleidyddiaeth (ibid).
- 4.12 Gallai diffyg dealltwriaeth hefyd chwarae rôl mewn troi allan i bleidleisio. Mewn arolwg gan Gymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru, nodwyd fod y rhai a holwyd weithiau'n teimlo'n ddryslyd ynghylch beth yr oeddent yn pleidleisio drosto ac yn aml iawn heb wybodaeth wleidyddol (Blair & Mathias, 2017) – er enghraifft, roedd adnabod gwleidyddion lleol yn arbennig o isel. Yn ogystal, ni wyddai 30% o'r rhai a holwyd fod polisi iechyd a'r GIG yng Nghymru wedi cael eu datganoli (Blair & Mathias, 2017), gan ddangos eto'r diffyg dealltwriaeth. Os na wŷr pobl pa gyfrifoldebau sydd wedi eu datganoli, gallai fod ganddynt yr argraff fod etholiadau lleol a rhai'r Cynulliad yn llai pwysig a theimlo na all materion perthynol i'r meysydd hynny dderbyn sylw ar lefel leol neu genedlaethol. Roedd y rhai a holwyd yn

cydnabod nad oedd digon o addysg wleidyddol a bod y diffyg gwybodaeth yma'n chwarae rôl andwyol mewn democratiaeth yng Nghymru.

- 4.13 Yn ogystal, mae'n bwysig nodi nad yw diffyg gwybodaeth wedi'i gyfyngu i bobl ifanc. Er mwyn ceisio datrys y broblem, mae ymchwilwyr wedi argymhell bod angen gwella addysg wleidyddol a chael cyfathrebu gwell rhwng llywodraeth a'r cyhoedd (Blair & Mathias, 2017). Gallai gwella addysg ac ymwybyddiaeth wleidyddol helpu i wella argraff pobl o bwysigrwydd etholiadau lleol. Mae'r effaith yn fwy amlwg fyth ar lefel leol gyda thraean o bawb a holwyd yn Lloegr yn dweud nad oeddent yn teimlo bod ganddynt ddigon o wybodaeth i wneud dewis gwybodus mewn etholiadau lleol (Y Comisiwn Etholiadol, 2017d). Mae hyn yn llawer is na'r ffigurau ar gyfer yr Etholiad Cyffredinol (ibid). Mae angen dealltwriaeth well o bwerau llywodraeth leol a chodi ymwybyddiaeth o'r hyn y mae cynghorwyr lleol yn ei wneud i wella bywydau eu dinasyddion.
- 4.14 Gallai'r ffordd y cyflwynir gwybodaeth i bobl hefyd fod yn effeithio ar eu parodrwydd i bleidleisio. Edrychodd ymchwil yn yr Unol Daleithiau ar newyddion 'meddal' o'i gymharu â 'chaled'. Eu canfyddiad oedd, er bod newyddion 'caled' traddodiadol o safon uwch, nad yw'n apelio at unigolion disylw ac, felly, mai ychydig iawn o ddylanwad y mae'n ei gael ar ymddygiad pleidleisio'r unigolion hyn (Baum & Jamison, 2006). Ar y llaw arall, mae newyddion meddal fel sioeau siarad yn ystod y dydd, yn gallu hwyluso cymhwysedd i bleidleisio'n well ymhlith pobl ddisylw sydd wedi ymddieithrio o wleidyddiaeth (ibid). Hyd yma, nid oes astudiaethau tebyg wedi eu cyflawni yn y DU ac nid yw'n bosib darogan a fyddai'r un effaith yn cael ei gweld ymhlith pobl yng Nghymru.
- 4.15 Roedd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ddiwygio etholiadol ym maes llywodraeth leol yn gofyn cwestiynau agored i ganfod y gefnogaeth i unrhyw fesurau na chawsant eu codi fel arall yn ystod yr ymgynghoriad. Roedd cefnogaeth i wella addysg ac ymwybyddiaeth pleidleiswyr (Llywodraeth Cymru, 2018). Er y gall addysg ddigwydd mewn unrhyw gyd-destun, awgryma'r 'Rhaglen Ysgolion Democrataidd' mai'r ysgol yw'r lle gorau i wneud hyn (Cymdeithas Diwygio Etholiadol Yr Alban, 2018). Yn ôl y Cwricwlwm Rhagoriaeth (CfE) yn yr Alban (2004), ni ddylid addysgu agweddau ar ddinasyddiaeth, fel democratiaeth a phleidleisio, fel pwnc ar ei ben ei hun i blant, ond yn hytrach ei gymhwyso ar draws y cwricwlwm cyfan. Bydd

cwricwlwm Cymru efallai'n ymgorffori system debyg yn dilyn yr argymhellion a wnaed gan yr Athro G. Donaldson (Donaldson, 2015).

- 4.16 Mae eraill yn dadlau nad yw addysg ddinesig mewn ysgolion yn ddigon oherwydd nad yw'n datblygu digon ar sgiliau democrataidd ymarferol plant. Yn hytrach, byddai mesurau fel y rhai sydd wedi eu cyflwyno mewn rhai ysgolion yn Awstralia, sy'n defnyddio prosesau democrataidd i gyfoethogi profiad plant mewn ysgolion drwy adael iddynt wneud penderfyniadau am eu gwersi, eu cwricwlwm a sut i redeg adeiladau'r ysgol, yn rhoi cyfle i bobl ifanc "baratoi i ymddwyn fel dinasyddion mewn cymdeithas ddemocrataidd" (Varnham, et al., 2014).
- 4.17 Mae tystiolaeth sydd hefyd yn awgrymu fod gan addysg rôl bwysig i'w chwarae mewn penderfynu ymgysylltiad pobl ifanc mewn materion gwleidyddol. Er enghraifft, holwyd barn y bobl ifanc am Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (UE). Cafwyd fod plant a oedd wedi dysgu am yr UE yn yr ysgol, neu o ffynonellau eraill, yn gallu cynnig dadleuon mwy trefnus wrth roi eu barn am a ddylai'r Deyrnas Unedig aros yn, neu adael yr UE (WISERD, 2016). Mae hyn yn cefnogi'r farn lle caiff plant eu haddysgu am faterion perthnasol, y medrant wneud penderfyniadau gwybodus gwell. Er nad yw'r dystiolaeth yn ymwneud yn uniongyrchol â gallu ymgysylltu mewn dyletswyddau dinesig, gan gynnwys pleidleisio, mae'n awgrymu fod addysg yn bwysig i ennyn diddordeb a gwella dealltwriaeth.

Dylanwadau cynhenid

- 4.18 Mae rhai ffactorau'n ymwneud ag argraffiadau unigolion a allai effeithio ar eu cymhelliad i bleidleisio. Mewn arolwg gan y Gymdeithas Diwygio Etholiadol, roedd cytundeb â'r datganiad "pan fydd pobl fel fi'n cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth, gallwn wir newid y ffordd y mae pethau'n cael eu rhedeg" yn isel ar gyfartaledd ymhlith pawb a ymatebodd, ond yn enwedig ymhlith rhai nad ydynt yn pleidleisio (Blair & Mathias, 2017, tud.7).
- 4.19 Gall diffyg amrywiaeth ymhlith cynrychiolwyr etholedig hefyd effeithio ar argraffiadau pleidleiswyr o ddylanwad. Er enghraifft, o ran tan-gynrychiolaeth ar lefel Llywodraeth y DU, yn ôl y prosiect *Tune In, Turn Out*, dywedodd y bobl ifanc a holwyd eu bod yn cael eu cymell i beidio â phleidleisio oherwydd nad oedd gwleidyddion yn rhoi sylw i'r materion sydd bwysicaf iddynt fel costau byw uwch, diweithdra a thai (Birdwell, et al., 2014). Bu Demos hefyd yn holi barn pobl ifanc am broffiliau Aelodau Seneddol (ASau). Awgrymodd yr ymchwili, oedd yn cynnwys

arolygon a grwpiau ffocws, fod dosbarth cymdeithasol, oed a rhywedd AS yn bwysig wrth ystyried cymhelliad i bleidleisio. Yn benodol, dywedodd y bobl ifanc a holwyd y byddent yn fwy tebygol o bleidleisio pe bai mwy o ASau dosbarth gweithio lleol, mwy o ASau dan 35 oed, mwy o ASau o'r ardal leol a mwy o ferched yn ASau (Birdwell, et al., 2014).

- 4.20 Nid yw hyn yn ymddangos i fod yn egluro'r lefelau isel o gofrestru a throï allan a welir ymhlith pobl BME o ystyried y canfyddiadau bod grwpiau BME yn fwy cadarnhaol am effeithlonrwydd pleidleisio na'r boblogaeth yn gyffredinol, yn enwedig rhai a anwyd y tu allan i'r DU (MORI, 2005). Roedd y rhesymau poblogaidd dros beidio â phleidleisio gan unigolion BME yn cynnwys diffyg ymddiriedaeth mewn gwleidyddion i gadw at eu haddewidion, ac nad oeddent yn gweld pwynt mewn pleidleisio oherwydd ei bod yn amlwg pwy a fyddai'n ennill yr etholiad (MORI, 2005).

Dylanwadau anghynhenid

- 4.21 Gall ymddygiad gwleidyddol fel pleidleisio hefyd gael ei ddylanwadu gan ffactorau anghynhenid fel cyd-destunau lleol ac aelwyd, gyda chreu arfer pleidleisio'n gysylltiedig ag ymgysylltiad gwleidyddol rhieni pobl (Pulitzer, 2002). Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer creu arfer pleidleisio drwy gysylltiadau cymdeithasol â theulu a chyfoedion. Mae rhai wedi dadlau bod agweddau ar gyfranogi gwleidyddol yn cael eu dysgu'n ifanc drwy brofiadau yn yr ysgol, yn y gymdogaeth ac yn y cartref. Er enghraifft, dengys tystiolaeth ei bod yn llawer mwy tebygol y bydd rhywun yn pleidleisio os oes pleidleisiwr arall yn y cartref. Dangoswyd bod yr effaith hon hefyd yn gryfach os yw'r pleidleisiwr arall yn aelod o'r teulu, yn hytrach na'n gymar neu'n gyd-letywr (Fieldhouse & Cutts, 2012). Mae gan hyn oblygiadau i ostwng yr oed pleidleisio oherwydd, y mwyaf ifanc yw rhywun sy'n pleidleisio am y tro cyntaf, y mwy tebygol ydynt o fod yn dal i fyw â'r teulu ac felly'n agored i'r effaith hon. Mae'r awduron yn tanlinellu pa mor bwysig yw hyn i greu arfer, gan nodi os bydd etholwr wedi pleidleisio unwaith, eu bod yn fwy tebygol o bleidleisio eto yn y dyfodol (Green & Shachar, 2000; Fujiwara, et al., 2016), gan bwysleisio eto pa mor bwysig yw creu arfer yn ifanc. Cafwyd yr effaith hon hefyd ei nodi ymhlith grwpiau a dan-gynrychiolir, er enghraifft mewn astudiaeth a edrychodd ar ymddygiad pleidleisio pobl gydag anableddau deallusol, y ffactor bwysicaf o ran darogan ymddygiad

pleidleisio oedd byw ar aelwyd gyda rhywun a oedd eisoes yn pleidleisio (Keeley, et al., 2008).

- 4.22 Treialwyd technegau procio mewn arbrofion pleidleisio lle'r oedd ymyriadau i atgoffa pobl o'u dyletswydd ddinesig yn effeithiol gydag annog cyfranogi a'r effaith hon hefyd yn un barhaus (Behavioural Insights Team, 2014). Dangoswyd fod ymyriadau ysgafn eraill fel canfasio personol (naill ai wyneb yn wyneb neu dros y ffôn) hefyd yn cynyddu cofrestru a throi allan i bleidleisio, yn yr achos hwn o rhwng tri a saith y cant (ibid). Oherwydd effeithiau creu arfer, gyda phobl yn fwy tebygol o barhau i wneud rhywbeth ar ôl dechrau, cafwyd fod effaith yr ymyriad hwn yn un barhaus gyda'r tebygolrwydd y byddai rhywun yn pleidleisio mewn etholiad y flwyddyn ganlynol yn cynyddu o dros 50% o'i gymharu â grŵp rheoli (ibid).

Dileu rhwystrau a gwella troi allan i bleidleisio

- 4.23 Mae dileu rhwystrau i bleidleisio a chofrestru er mwyn annog mwy o gyfranogi nid yn unig yn cynnwys rhoi sylw i'r materion a drafodir uchod, o ran dealltwriaeth ac argraff pobl o'u dylanwad, ond hefyd gyda'r broses bleidleisio ei hun.

Cofrestru

- 4.24 Mae cofrestru i bleidleisio yn sylweddol uwch ymhlith pobl hŷn rhwng 55-64 oed (90 y cant) o'i gymharu â phobl iau rhwng 18-24 (55 y cant) (Y Comisiwn Etholiadol, 2014b). Mae cymunedau BME, pobl sydd newydd symud tŷ a phobl mewn tai rhent hefyd yn llai tebygol o gofrestru i bleidleisio (Birch, et al., 2014). Mae hyn yn golygu nad yw'r etholaeth gofrestredig yn cynrychioli'r boblogaeth yn llawn. Trafodwn sawl awgrym ynghylch sut i gael mwy o bobl i gofrestru.
- 4.25 Un broblem yw bod angen i bobl gofrestru ymlaen llaw cyn pleidleisio. Gallai cofrestru'r un diwrnod helpu i ateb hyn a dangoswyd bod hyn yn effeithiol mewn etholiad arlywyddol blaenorol yn yr Unol Daleithiau gyda thaleithiau a oedd yn gadael i bobl gofrestru'r un diwrnod yn denu mwy i droi allan na thaleithiau eraill (Birdwell, et al., 2014).
- 4.26 Mae cefnogaeth wedi bod i ddefnyddio Swyddogion Cofrestru Etholiadol (ERO) sydd â mynediad at ddata am bleidleiswyr, gan gynnwys manylion Yswiriant Gwladol, trwydded yrru a phasbort. Mae gan swyddogion ERO eisoes fynediad at fanylion treth y cyngor a budd-dâl tai a gallai'r ffynonellau ychwanegol hyn helpu i

roi hwb i gofrestru a lleihau'r gost. Fodd bynnag, roedd rhai pobl yn erbyn gan ofni y byddai hyn yn tresbasu ar eu hawl i breifatrwydd (Llywodraeth Cymru, 2018).

- 4.27 Cafwyd ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus gan y Comisiwn Etholiadol cyn etholiadau llywodraeth leol Cymru yn 2017, yn annog pobl i gofrestru. Defnyddiwyd sawl dull o hysbysebu gan gynnwys y teledu, cyfryngau cymdeithasol, radio ac injans chwilio ar-lein gyda'r nod o gyrraedd cynulleidfa gyffredinol a grwpiau sydd wedi tan-gofrestru. Rhwng y dyddiad y dechreuodd yr ymgyrch a'r dyddiad cau ar gyfer cofrestru, ychwanegwyd 25,000 o bobl at gofrestri etholiadol yng Nghymru. Er nad yw hyn yn dystiolaeth o berthynas achosol, mae'r gwaith ôl-arolwg yn dangos bod ymwybyddiaeth o'r ymgyrch yn uchel. Roedd grwpiau a dan-gynrychiolir hefyd yn cael eu targedu drwy asiantaethau cymorth fel RNIB Cymru, Mencap Cymru a'r Wallich i wella ymwybyddiaeth o sut y gallai pobl gymryd rhan yn yr etholiad (Y Comisiwn Etholiadol, 2017b).
- 4.28 Defnyddiwyd cofrestru awtomatig yn llwyddiannus mewn rhai gwledydd fel Canada, Awstralia a rhai taleithiau yn yr UD. Mae gan gofrestru awtomatig fanteision yn enwedig i bobl sy'n symud tŷ oherwydd nid oes angen ail-gofrestru yn y cyfeiriad newydd (Y Comisiwn Etholiadol, 2016). Fel rhan o ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ddiwygio etholiadol, roedd 77% o'r rhai a wnaeth ymateb o blaid cofrestru awtomatig (Llywodraeth Cymru, 2018).
- 4.29 Gellid hefyd caniatáu bloc-gofrestru mwy di-ffwdan i dargedu grwpiau penodol a dan-gynrychiolir, fel cymunedau BME, myfyrwyr a phobl sy'n byw mewn cartrefi gofal a fflatiau tŵr (Y Gymdeithas Diwygio Etholiadol, 2017).

Mynediad

- 4.30 Mae mynediad cyfartal at etholiadau'n gam pwysig i sicrhau mwy o droi allan. Fodd bynnag, dangosodd yr ymchwiliad nad oes gan bobl gydag anableddau gyfle cyfartal i bleidleisio o'i gymharu â phobl heb anableddau (Y Comisiwn Etholiadol, 2003; Y Comisiwn Etholiadol, 2017b) a bod problemau fel geiriau anghyfarwydd, mapiau difudd a diffyg ffurflenni hawdd eu deall yn dal i fodoli.
- 4.31 Mae pobl gydag anableddau deallusol wedi eu tan-gynrychioli mewn etholiadau cyffredinol yn y DU o ran bod wedi cofrestru a throï allan i bleidleisio (Keeley, et al., 2008). Awgryma hyn fod problem efallai gyda'r broses gofrestru a hefyd, o bosib, gyda mynediad at orsafoedd pleidleisio. Fel y nodwn uchod, mae ffactorau allanol

eraill hefyd yn codi ac mae byw gyda rhywun sydd eisoes yn pleidleisio, er enghraifft, yn ffactor fwy pwerus o ran darogan troi allan ymhlith rhai gydag anabledau deallusol na bod mewn llety cymorth.

- 4.32 Mae Awstralia wedi ystyried atebion arloesol i helpu grwpiau a dan-gynrychiolir i bleidleisio. Yn ogystal ag ehangu lleoliadau pleidleisio i gynnwys ysbytai a chartrefi nyrsio (Y Comisiwn Etholiadol, 2017a), maen nhw hefyd wedi cyflwyno ap am ddim ar gyfer ffonau a dyfeisiau llechen i roi cyfarwyddyd, ynghyd â meddalwedd tecst-i-lais i helpu pobl gydag anawsterau cyfathrebu i bleidleisio eu hunain mewn gorsafoedd pleidleisio. Er nad oes tystiolaeth fod hyn wedi cael effaith uniongyrchol ar droi allan i bleidleisio, derbyniodd yr ap meddalwedd adborth cadarnhaol gan asiantaethau anabled ac fe'i lawrlwythwyd 1,615 o weithiau mewn cyfnod o bum wythnos cyn yr etholiadau (Victorian Electoral Commission, 2016). Mae'n werth edrych ar atebion arloesol a ddefnyddir gan wledydd eraill i gynorthwyo grwpiau a dan-gynrychiolir.

Dulliau pleidleisio

- 4.33 Ar hyn o bryd, pleidleisio drwy'r post a thrwy ddirprwy yw'r prif ddulliau a ddefnyddir yn lle mynd i orsaf bleidleisio. Roedd cyfraddau troi allan ar gyfer etholiadau llywodraeth leol Cymru yn 2017 yn uwch ar gyfer pleidleisio drwy'r post na thrwy fynychu gorsaf bleidleisio, gyda 69.7% am y naill a 36.3% am y llall (Y Comisiwn Etholiadol, 2017b). Ymddengys fod hwylustod pleidleisio'n ffactor, gyda'r ymchwil yn awgrymu mai un rheswm poblogaidd dros beidio â phleidleisio mewn gorsaf bleidleisio oedd bod amgylchiadau pobl ar y diwrnod yn eu hatal (MORI, 2005). Yn ôl ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ddiwygio etholiadol, cefnogir dulliau mwy hyblyg o bleidleisio a allai wella hwylustod, fel pleidleisio electronig, oriau pleidleisio mwy hyblyg a defnyddio mwy o orsafoedd pleidleisio (Llywodraeth Cymru, 2018). O ystyried yr awgrym bod hwylustod yn ffactor, mae'n bwysig asesu pa mor addas yw'r dulliau hyn i gael mwy o bobl i droi allan i bleidleisio.
- 4.34 Prin yw'r dystiolaeth i awgrymu y byddai pleidleisio electronig mewn gorsafoedd pleidleisio'n cael effaith gadarnhaol. Mae systemau pleidleisio electronig yn ddrud ac yn dueddol o brofi problemau fel y system yn chwalu, a diogelwch (Y Gymdeithas Diwygio Etholiadol, 2017). Yn ôl tystiolaeth o Wlad Belg, arweiniodd pleidleisio electronig at lai o bobl yn troi allan i bleidleisio er bod pleidleisio'n orfodol yno (Regis Dandoy yn (Y Gymdeithas Diwygio Etholiadol, 2017). Os am gyflwyno

systemau electronig, byddai angen ymchwil fanwl, profion a threialon i benderfynu pa mor effeithiol a fyddai'r systemau hyn cyn eu gweithredu.

- 4.35 Trafodwyd pleidleisio dros y we o bell hefyd fel ffordd o leihau costau ffisegol etholiadau a ffordd o gael mwy o bobl i droi allan mewn democratiaethau Gorllewinol dirywiedig (Norris 2001). Er bod data arolwg yn y DU yn awgrymu bod pobl ifanc yn teimlo y byddent yn fwy tebygol o bleidleisio ar-lein (Birdwell, et al., 2014), mae gwledydd fel Canada, Estonia a'r Swistir wedi cyflwyno pleidleisio ar y we a chanfod nad oedd yn cael dim effaith bron ar droi allan (Oostveen & van de Besselaar, 2004; Solvak & Vassil, 2018). Er hyn, mae tystiolaeth ddiweddar wedi dangos fod e-bleidleisio'n gallu cael mwy o effaith ar greu arfer na thrwy'r bleidlais bapur arferol ac er efallai nad yw'n cynyddu troi allan, gallai helpu i atal dirywiad pellach (Solvak & Vassil, 2018).
- 4.36 Mae pleidleisio gorfodol yn ddull dadleuol o gael mwy o bobl i bleidleisio. Cyn cyflwyno pleidleisio gorfodol yn Awstralia, roedd llai na 70 y cant o bobl yn pleidleisio mewn etholiadau. Roedd pobl dosbarth gweithio hefyd yn llai tebygol o bleidleisio na phobl gyfoethog, gan arwain at bolisi cyhoeddus nad oedd yn adlewyrchu dewisiadau'r boblogaeth yn gyffredinol (Fowler, 2013). Yn dilyn cyflwyno pleidleisio gorfodol, cafwyd cynnydd o 24 y cant mewn troi allan i bleidleisio a symudiad tuag at bolisi mwy dethol gan bobl dosbarth gweithio (ibid). Ychydig iawn o gefnogaeth sydd i bleidleisio gorfodol yng Nghymru gyda'r ymgynghoriad ar Ddiwygio Etholiadol yn dangos bod y rhan fwyaf yn erbyn ei gyflwyno (Llywodraeth Cymru, 2018). Dangosodd astudiaethau hefyd er bod pleidleisio gorfodol yn effeithiol gyda chael mwy o bobl i droi allan (Hoffman, et al., 2017; Bechtel, et al., 2017), nad yw'n gwneud dim bron i wella'r cymhelliad sylfaenol a chreu arfer, gyda'r effaith yn diflannu unwaith y codir yr elfen orfodol (Bechtel, et al., 2017). Mae hyn yn tanlinellu ymhellach pa mor bwysig yw ffactorau cyd-destun a chymhelliad, yn hytrach na'r weithred o bleidleisio ei hun, i greu arfer.
- 4.37 Mae'r adran hon wedi ystyried y dystiolaeth ar gyfer pa ffactorau sy'n dylanwadu ar ymgysylltu a throi allan i bleidleisio (mewn etholiadau lleol ac etholiadau'n gyffredinol) a sut y gellir goresgyn rhwystrau i ymgysylltu. Mae'r adran nesaf yn troi ei sylw at y dystiolaeth berthnasol ynghylch y posibilrwydd o ymestyn y bleidlais yn etholiadau cynghorau lleol Cymru i bobl 16-17 oed a gwladolion tramor.

5. Ymestyn y bleidlais

- 5.1 Os yw adnewyddu democrataidd, fel y nodwn uchod, yn ymwneud yn rhannol â chynrychiolaeth decach, gellid gweld ymestyn y bleidlais fel dull o adnewyddu democrataidd drwy alluogi cynrychiolaeth i fwy o bobl. Yn 2018, bu Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ar roi'r bleidlais mewn etholiadau cynghorau lleol i bobl ifanc 16-17 oed a phawb sy'n preswyllo yng Nghymru, beth bynnag yw eu dinasyddiaeth neu genedligrwydd (Llywodraeth Cymru, 2018)⁶. Mae'r dystiolaeth berthnasol ar roi'r bleidlais i'r grwpiau hyn yn cael ei hystyried isod, pob grŵp yn ei dro.

Pobl ifanc

- 5.2 Roedd tua saith allan o ddeg o'r rhai wnaeth ymateb (68%) i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru o blaid gostwng yr oed pleidleisio i 16 oed. (Llywodraeth Cymru, 2018). Nododd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn eu hymgyngoriad hwythau hefyd, fod cefnogaeth i ostwng yr oed pleidleisio i 16 oed, gyda'r rhan fwyaf o'r rhai wnaeth ymateb (81%) yn nodi eu bod dan 18 oed (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2018). Yn y llenyddiaeth, awgrymir fod y rhai sydd o blaid gostwng yr oed pleidleisio yn ei weld fel ffordd o gefnogi pobl ifanc i fod yn gaffaeliad i gymdeithas a'u hannog i ddatblygu eu potensial dinesig a democrataidd (Eichorn, 2018). Mae'r rhai sydd yn erbyn rhoi'r bleidlais i bobl 16-17 oed yn tueddu i resymu y byddai'n cael effeithiau negyddol, neu o leiaf dim effeithiau cadarnhaol (ibid). I ddeall y safbwyntiau hyn, cyflwynir y dystiolaeth yn ymwneud ag arferion ac ymddygiad pleidleisio pobl ifanc o dan y themâu sy'n codi o'r ymgynghoriad a'r llenyddiaeth ehangach. Dylid nodi bod y themâu hyn yn bennaf seiliedig ar ddadleuon barn yn ymwneud ag egwyddor, ond ymgorfforir dadansoddiad empirig lle bo'n berthnasol.

Thema 1: 'Mae'n gwneud synnwyr'

- 5.3 Wrth ymchwilio i'r ffactorau dros farn pobl am roi'r bleidlais i bobl ifanc, un thema a ddaeth allan o ymgynghoriad Llywodraeth Cymru oedd ei fod yn 'gwneud synnwyr' o ystyried y dyletswyddau eraill sy'n gysylltiedig â bod yn 16 oed (Llywodraeth Cymru, 2018), dadl sy'n cael ei hailadrodd drwy gydol y llenyddiaeth ar y pwnc. Un enghraifft o ffynhonnell arall sy'n mynegi'r farn hon yw'r Gymdeithas Diwygio Etholiadol sy'n dadlau y dylai bod gan unrhyw un sy'n cyfrannu'n ariannol i'r

⁶ Bu'r ymgynghoriad hwn hefyd yn holi barn am roi'r bleidlais i garcharorion yng Nghymru. Mae'r dystiolaeth ar hyn yn cael ei hystyried mewn adroddiad ar wahân.

wladwriaeth, ac efallai hyd yn oed yn mentro eu bywydau er ei mwyn drwy ymuno â'r fyddin, hawl i leisio barn am sut y mae'r wlad yn cael ei rhedeg (Y Gymdeithas Diwygio Etholiadol, 2018).

Thema 2: 'Ddim yn barod'

- 5.4 Ail thema a nodwyd yn y crynodeb o'r ymateb i'r ymgynghoriad yw nad oedd pobl ifanc 16-17 oed yn barod i bleidleisio (Llywodraeth Cymru, 2018). Roedd hyn yn cynnwys y farn nad oeddent yn ddigon aeddfed, heb ddigon o brofiad perthnasol neu heb eu haddysgu ddigon am wleidyddiaeth a democratiaeth (ibid).
- 5.5 Gellir profi'r farn hon yn erbyn y dystiolaeth berthnasol o ymwybyddiaeth pobl o ba feysydd sydd wedi eu datganoli i Lywodraeth Cymru, a pha rai sydd wedi eu cadw'n ôl gan Lywodraeth y DU. Er enghraifft, ymchwiliodd (Evans, 2017) i wybodaeth pobl o bwy sy'n rhedeg y GIG, addysg a phlisma yn Nghymru. O ran y GIG, dangosodd bobl ifanc 16-17 oed lai o wybodaeth na'r boblogaeth yn gyffredinol (gwyddai 28 y cant fod GIG Cymru wedi'i ddatganoli o'i gymharu â 43 y cant o'r boblogaeth yn gyffredinol), a allai gefnogi'r dybiaeth ynghylch diffyg gwybodaeth rhai 16-17 am feysydd sy'n berthnasol i ddemocratiaeth yng Nghymru. Er hyn, ar gyfer addysg a phlisma, atebodd bobl ifanc 16-17 oed y cwestiynau ar ddatganoli'n gywir yn amlach na'r boblogaeth yn gyffredinol (75 y cant o'i gymharu â 61 y cant ar gyfer addysg, a 53 y cant o'i gymharu â 50 y cant ar gyfer plisma). Mae hyn yn awgrymu o ran y meysydd datganoledig, a rhai yn benodol – efallai'r rhai sy'n fwy perthnasol i'r grŵp oed dan sylw, fel addysg – nad oes dystiolaeth bendant o ddiffyg gwybodaeth cymharol.
- 5.6 Os edrychwn y tu hwnt i feysydd datganoledig, dengys ymchwil i ymwybyddiaeth o arweinwyr gwleidyddol ymhlith y grŵp oed 16-17 oed (Evans, 2017) fod tua thri allan o bedwar yn gallu adnabod y prif wleidyddion yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, er bod diffyg data cymharol ar gyfer ymwybyddiaeth o'r un gwleidyddion ym mhoblogaeth Cymru'n gyffredinol. Mae dadl bod gan rai wybodaeth isel am actorion yn y system gwleidyddol oherwydd na fedrant uniaethu â'r actorion hyn yn hytrach nag oherwydd diffyg diddordeb mewn gwleidyddiaeth yn gyffredinol (Eichorn, 2018).
- 5.7 Mae profiad gwleidydd eraill a gyflwynodd pleidleisio i rai 16-17 oed yn awgrymu bod gwybodaeth neu ymwybyddiaeth isel o wleidyddiaeth yn rhwystr y gellir ei oresgyn. Yn Awstria ar ôl ymestyn y bleidlais, cafodd addysg ddinesig a dinasyddiaeth ei ehangu mewn ysgolion gyda'r boblogaeth hon wedyn yn dangos

cyfraddau uwch o droi allan i bleidleisio na rhai 18-24 oed (Zeglovits & Aichholzer, 2014). Yn yr Alban hefyd, awgryma'r dystiolaeth ddiweddaraf fod addysg ddinesig wedi bod yn fanteisiol, gyda chysylltiad cyson yn cael ei ganfod rhwng trafod gwleidyddiaeth yn y dosbarth a lefel uchel o ymgysylltu gwleidyddol ac agweddau dinesig cadarnhaol (Eichorn, 2015).

- 5.8 Awgryma'r canfyddiadau hyn y gallai gwella addysg am gyfrifoldebau dinesig fod yn ddefnyddiol. Fodd bynnag, awgryma data arolwg o bobl ifanc yng Nghymru fod llawer o rai rhwng 12 a 15 oed yn teimlo na wnaeth yr ysgol helpu i danio eu diddordeb mewn gwleidyddiaeth (Evans, 2017).

Thema 3: 'Dim diddordeb'

- 5.9 Er na wnaeth y crynodeb o'r ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ganfod barn nad oes diddordeb gan bobl ifanc mewn pleidleisio (Llywodraeth Cymru, 2018), mae'n bersbectif sy'n ymddangos yn y llenyddiaeth ar y pwnc. Cymysg yw'r dystiolaeth o'r safbwynt hwn, er bod llawer o astudiaethau'n canfod bod pobl ifanc 18-24 oed ychydig yn llai gwybodus a brwdfrydig am ddemocratiaeth na'r oedrannau hŷn, rhywbeth sy'n rhannol efallai'n egluro argraffiadau'r grŵp 16-17 oed (Wagner, et al., 2012; Zeglovits & Aichholzer, 2014; Y Comisiwn Etholiadol, 2017d). Mae rhai'n mynnu bod y dybiaeth hon ei bod yn bosib i bobl ifanc 16-17 oed gael eu cynrychioli'n gywir gan eu tebyg yn wallus, o leiaf yn rhannol oherwydd bod pobl ifanc 16-17 oed gan amlaf mewn addysg draddodiadol llawn amser neu'n dilyn cyrsiau galwedigaethol, sydd yn ôl rhai'n effeithio ar eu profiad o drafodaeth ac ymgysylltu gwleidyddol (Eichorn, 2018).
- 5.10 Yn Norwy, cafodd treial ei redeg yn gostwng yr oed pleidleisio i 16 mewn rhai bwrdeistrefi yn etholiad 2011. Drwy fethodoleg arolwg, roedd ymchwilyr wedi canfod mwy o ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth ymhlith pobl ifanc 18 oed na rhai 16-17 oed (Bergh, 2013), gan felly gefnogi'r awgrymu nad oes gan rai 16-17 oed gymaint o ddiddordeb â'u tebyg hŷn. Ond rhaid cynnwys cafeat yn y casgliad hwn oherwydd roedd y bwrdeistrefi a fu'n rhedeg y treial yn hunan-ddewisol ac yn ymwneud mwy â gwleidyddiaeth ieuenctid.
- 5.11 Mae canfyddiadau Bergh (2013) yn gwbl groes i ganfyddiadau astudiaeth debyg yn Awstria (Wagner, et al., 2012). Defnyddiodd Wagner et al (2012) fethodoleg arolwg hefyd, ond eu canfyddiad hwy oedd bod diddordeb gwleidyddol ymhlith rhai 16-17 oed yn ail dim ond i bobl 31+ oed, a'u parodrwydd i gymryd rhan tua'r un fath â'r

boblogaeth yn gyffredinol. Awgryma Bergh (2013) fod y gwahaniaeth posib rhwng y canfyddiadau oherwydd bod yr oed pleidleisio is yn Awstria'n realiti'n hytrach na'n rhan o dreial, gan olygu bod y rhai a gymrodd ran wedi cael mwy o gyfle i aeddfedu'n wleidyddol.

- 5.12 O ran perthnasedd y canfyddiadau hyn i Gymru, dylid nodi bod gan Awstria'n draddodiadol gyfradd uwch o droi allan i bleidleisio mewn etholiadau (Zeglovits & Aichholzer, 2014), rhywbeth na ellir ei ddweud am etholiadau yng Nghymru lle mae'r gyfradd troi allan ar draws y wlad yn gyffredinol, ar gyfer etholiadau'r Cynulliad a chynghorau lleol, fel arfer o dan 50 y cant (Jones & Holzinger, 2016). Awgryma hyn nad yw'r canfyddiadau yn Awstria efallai'n gwbl berthnasol i gyd-destun Cymru.
- 5.13 Yn ôl tystiolaeth o'r Alban ar gyfer refferendwm annibyniaeth 2014, lle'r oedd gan bobl ifanc 16-17 oed hawl i bleidleisio, adroddwyd fod 75 y cant o'r grŵp hwn wedi pleidleisio (Y Gymdeithas Diwygio Etholiadol, 2018), (Y Comisiwn Etholiadol, 2014a), er i'r cofnodion data gwrthrychol ddangos mai dim ond 66 y cant o rai 16-17 oed a oedd wedi cofrestru pan gynhaliwyd y refferendwm, sy'n awgrymu bod y gyfradd troi allan ar gyfer y grŵp oed hwn yn is na'r hyn oedd wedi'i hunan-adrodd (ibid)⁷ ac yn sylweddol is na'r gyfradd troi allan gyffredinol o 85 y cant.
- 5.14 Er y gallai hyn awgrymu diddordeb isel mewn gwleidyddiaeth ymhlith rhai 16-17 oed, mae rhai hefyd yn dadlau nad yw pobl ifanc wedi datgysylltu o ddemocratiaeth ond yn hytrach yn ymgysylltu mewn ffordd wahanol (Evans, 2017). Er enghraifft, mae pobl ifanc yn dangos mwy o ymgysylltu ag arferion democrataidd eraill fel deisebau ar-lein, blogiau, gwefannau a chynyrchiadau cyfryngau digidol (Henn & Foard, 2011). Felly gallai gor-ganolbwyntio ar gyfraddau troi allan etholiadol fod yn fesur rhy gul o ddiddordeb pobl ifanc mewn gwleidyddiaeth (ibid). Gwelir y patrwm ymgysylltu hwn hefyd gyda phobl ifanc 18-24 oed, fel y nodwn yn yr adran ar droi allan i bleidleisio yn yr adroddiad hwn.

Thema 4: 'Bydd mwy'n troi allan i bleidleisio yn y tymor hir'

- 5.15 Credir fod profiadau cynnar o bleidleisio'n creu arfer [Dinas, 2012, a ddyfynnir yn (Eichorn, 2018)], ac mae'r cyfnod rhwng 18 oed a'r ugeiniau cynnar yn golygu gwneud penderfyniadau pwysig am yrfaeodd a pherthnasoedd [Strate et al, 1989, a

⁷ Mae (Ruedin, 2018) yn nodi bod yr awydd i blesio a rhagfarn hunan-ddewisol efallai wedi sgiwio canlyniadau'r arolwg.

ddyfynnir yn (Zeglovits & Aichholzer, 2014)]. Dadl rhai felly yw oherwydd bod llawer o bobl yn gorfod aros tan eu hugeiniau cynnar i bleidleisio ar ôl troi'n 18 oed, y gallai hyn gyd-ddigwydd â phethau eraill sy'n mynd â'u sylw ar yr adeg hon a meithrin diddordeb isel mewn democratiaeth, gan felly arlwyo'r ffordd ar gyfer diddordeb neu ymgysylltu isel gydol oes (ibid). Awgrymwyd felly bod dechrau pleidleisio'n iau (pan awgrymir bod pleidleisio'n haws oherwydd llai o straen bywyd), mewn theori, yn gwneud y cohort hwn yn fwy tebygol o barhau i droi allan i bleidleisio gydol oes (ibid).

- 5.16 Er bod data'n brin ar effaith hirdymor gostwng yr oed pleidleisio, yn ôl un astudiaeth yn Awstria (Zeglovits & Aichholzer, 2014), roedd y gyfradd troi allan yn uwch ymhlith rhai 16-17 oed na rhai 18-21 oed. Fodd bynnag, dylid amodi'r canfyddiad hwn oherwydd diffyg data hydredol ac felly ni all ateb y cwestiwn a oes modd cynnal y troi allan uwch hwn ymhlith pobl ifanc 16-17 oed wrth iddynt fynd yn hŷn, a hefyd oherwydd na wyddom beth yw effaith ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth ymhlith y grŵp sydd newydd dderbyn y bleidlais (ibid), ac effaith newidiadau i gwricwlwm ysgolion er mwyn gwella dysgu am y broses wleidyddol (Eichorn, 2018).
- 5.17 Yn ôl tystiolaeth o'r Alban, pan ofynnwyd i bobl ifanc 16-17 oed ar ôl refferendwm annibyniaeth yr Alban yn 2014, dywedodd 97 y cant ohonynt a bleidleisiodd y byddent yn gwneud hynny eto yn y dyfodol (Pwyllgor Deisebau, 2018). Pe gellid dangos bod yr ymddygiad disgwyledig hwn yn wir, gallai gefnogi'r ddadl ymhellach bod modd cynyddu troi allan tymor hir drwy ostwng yr oed pleidleisio. At ei gilydd fodd bynnag, ymddengys bod y dystiolaeth bresennol yn brin o ran bod gostwng yr oed pleidleisio'n creu arfer tymor hir.

Gwladolion tramor

- 5.18 Ar hyn o bryd, i bleidleisio mewn etholiad lleol yng Nghymru, o ran cenedligrwydd, rhaid bod:
- yn ddinesydd Prydeinig yn byw yn y DU;
 - yn ddinesydd y Gymanwlad yn byw yn y DU;
 - yn ddinesydd Gweriniaeth Iwerddon yn byw yn y DU;
 - neu'n ddinesydd yr UE yn byw yn y DU (Y Comisiwn Etholiadol, 2018).

- 5.19 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar ymestyn y bleidlais i ddinasyddion o bob gwlad sy'n preswyllo'n gyfreithlon yng Nghymru, mewn etholiadau cynghorau lleol (Llywodraeth Cymru, 2018). Byddai hyn hefyd yn dileu unrhyw ansicrwydd o ran hawliau pleidleisio dinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru pan fydd y DU yn gadael.

Canfyddiadau'r ymgynghoriad

- 5.20 Roedd cefnogaeth sylweddol i'r cynnig hwn ym mhob amrywiad arno, yn ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Er enghraifft, cytunodd 75% o'r ymatebwyr y dylai dinasyddion yr UE sy'n symud i Gymru ar ôl i ni adael yr UE ennill yr hawl i bleidleisio; cytunodd 73% y dylid cynnig y bleidlais i unrhyw sy'n preswyllo'n gyfreithlon yng Nghymru, beth bynnag yw eu cenedligrwydd; a chytunodd 70% y dylai fod gan ddinasyddion yr UE a'r Gymanwlad sy'n byw yng Nghymru hawl i sefyll fel ymgeiswyr mewn etholiad. Un farn a gynigiwyd ar y ddwy ochr i'r ddadl oedd y dylai fod cysylltiad cynhenid rhwng talu trethi a chael yr hawl i bleidleisio.

Tystiolaeth o wladolion tramor yn pleidleisio

- 5.21 Mae peth tystiolaeth amhendant o'r Swistir sy'n awgrymu bod rhoi'r bleidlais i wladolion tramor yn cynyddu cyfranogi dinesig [Giugni, 2007, a ddyfynnir yn (Groenendijk, 2008)].
- 5.22 Dengys tystiolaeth hefyd fod gwladolion tramor sy'n pleidleisio'n ymgysylltu llai mewn etholiadau lleol na'r boblogaeth yn gyffredinol (Groenendijk, 2008). Fodd bynnag, nid yw hyn ar draws y bwrdd gyda rhai grwpiau'n dangos cyfradd gyfrannol uwch o droi allan na'r boblogaeth yn gyffredinol (er enghraifft, pobl o Dwrci'n byw yn Sgandinafia (ibid)).
- 5.23 Yn rhannol, gellir egluro'r gyfradd troi allan isel ymhlith gwladolion tramor gan y ffaith bod mewnudwyr yn tueddu i fod yn iau a gyda chyrhaeddiad addysgol is na'r boblogaeth yn gyffredinol, yn ôl (Ruedin, 2018). Gallai hyn egluro peth o'r amrywiad, ond ymddengys bod ffactorau eraill hefyd y dylid eu hystyried sy'n benodol i wladolion tramor. Er enghraifft, er bod oedran hyn fel arfer yn gysylltiedig â throi allan uwch (Y Comisiwn Etholiadol, 2017d), yn achos gwladolion tramor ymddengys bod hyn ond yn wir os cawsant eu geni mewn gwlad ddemocrataidd (Wass, et al., 2015).

5.24 Drwy feincnodi ar gyfer gwahanol ffactorau newidiol a allai ddylanwadu fel arall ar dueddiad gwladolion tramor i bleidleisio yn y Swistir, casglodd Ruedin (2018) fod argraff o fudd yn y gymuned yn gwneud pobl yn fwy tebygol o bleidleisio. Yn achos pobl a fwriadai ddychwelyd i'w gwlad wreiddiol, awgrymodd yr ymchwilyr fod y bobl hyn efallai gyda'r argraff bod ganddynt lai o fudd yn y gymuned ac felly llai o ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth leol ac felly'n llai tebygol o bleidleisio. Nid dim ond yr amser y mae pobl yn ei dreulio yn y gymuned sy'n dylanwadu ar argraff pobl o fudd, er enghraifft cafwyd fod rhai a oedd yn cael cyswllt rheolaidd â Swistirwyr yn troi allan mwy i bleidleisio na'u tebyg, canfyddiad a oedd yn ôl ymchwilyr yn golygu bod cael 'gwreiddiau' mewn cymdeithas yn gwella cyfranogi. Tystiolaeth bellach o blaid y ddadl 'budd yn y gymuned' yw bod gwladolion tramor gyda chymar lleol neu blant ifanc yn troi allan mwy i bleidleisio. Ymddengys y canfyddiadau hyn i fod yn ddibynadwy o gofio bod ymchwil arall yn dangos canlyniadau tebyg mewn cydestun gwahanol (Wass, et al., 2015).

Tystiolaeth o wladolion tramor yn cofrestru i bleidleisio

5.25 Mae gan wahanol wledydd ddulliau gwahanol o gofrestru gwladolion tramor i bleidleisio, er enghraifft yng Ngwlad Belg mae cofrestru i bleidleisio'n orfodol ac yn cynnwys tyngu llw i ufuddhau i gyfansoddiad Gwlad Belg, cyfreithiau'r wlad a rheolau'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (Seidle, 2015). Yn yr Iseldiroedd a Sweden, fodd bynnag, mae'r awdurdod cyhoeddus perthnasol yn rhoi gwladolion tramor sy'n gymwys i bleidleisio ar y rhestr etholiadol yn awtomatig (ibid). Oherwydd y sefyllfa yn yr Iseldiroedd a Sweden, nid oes modd ymchwilio i faint o wladolion tramor sydd wedi cofrestru i bleidleisio yn y gwledydd hynny, ond yng Ngwlad Belg gwyddom yn 2012 fod y lefelau cofrestru'n amrywio rhwng 16-18 y cant gan ddibynnu a oedd y dinasyddion yn dod o'r UE neu beidio (ibid). Dywedodd un aelod o Senedd Ranbarthol Brwsel wedi'i geni yn Algeria y credai fod y rheidrwydd ar wladolion tramor i gofrestru i bleidleisio'n rhwysstr i bleidleisio er, a derbyn ei bod yn ddadl resymegol, ei diffyg tystiolaeth i gadarnhau'r gred hon (ibid). Mae'r adran hon wedi ystyried y dystiolaeth ar gyfer ymestyn y bleidlais i bobl ifanc 16-17 oed a gwladolion tramor. Mae'r adran nesaf yn cynnig sylwadau i gloi ar y prif gasgliadau a wnaed o'r llenyddiaeth ac yn gwneud argymhellion ar gyfer gwaith ymchwil pellach.

6. Sylwadau i gloi

- 6.1 Mae'r adroddiad hwn wedi ceisio crynhoi'r dystiolaeth ar gyfer adnewyddu democrataidd er mwyn goleuo datblygu a gweithredu diwygio etholiadol ym maes llywodraeth leol yng Nghymru a gwaith ymchwil sylfaenol yn dilyn hynny. Mae wedi trafod ymgysylltu dinesig a throi allan i bleidleisio fel un o amcanion adnewyddu democrataidd, gyda thystiolaeth yn ymwneud â dulliau o hyrwyddo pleidleisio mewn etholiadau lleol, goresgyn rhwystrau i ymgysylltu, ynghyd â thystiolaeth sy'n berthnasol i ymestyn y bleidlais i rai 16-17 oed a gwladolion tramor.

Prif gasgliadau

- 6.2 O'r dystiolaeth a adolygwyd, mae tair ffactor allweddol yn codi droeon drwy'r llenyddiaeth ar adnewyddu democrataidd:
- Mae ymgysylltu'n anwastad ac mae angen dulliau wedi'u teilwrio os am lwyddo i gynnwys grwpiau sydd wedi dieithrio'n wleidyddol;
 - Mae gan addysg y potensial i wella dealltwriaeth pobl o ddemocratiaeth leol ac effeithio ar lefelau ymgysylltu;
 - Mae argraffiadau pobl o'u dylanwad yn darogan pa mor debygol ydynt o ymgysylltu'n ddemocrataidd.

Ymgysylltu anwastad

- 6.3 Y prif gasgliad cyntaf yw nad yw ymgysylltu'n gyfartal ym mhob grŵp. Mae hyn yn bwysig oherwydd mae cynrychiolaeth deg yn anghydnaws ag ymgysylltu anwastad, yn enwedig lle mae rhagfarn systematig o ran pwy sy'n ymgysylltu. Mae ffactorau demograffig ac economaidd-gymdeithasol yn darogan ymgysylltu democrataidd a dinesig, a gall sut y mae'r llywodraeth yn dewis ymgysylltu â phobl waethygu'r gwahaniaethau hyn ymhellach.
- 6.4 I oresgyn hyn, dylai llywodraethau ystyried teilwrio eu dulliau o ymgysylltu â grwpiau sydd wedi ymddieithrio. Awgryma'r dystiolaeth a adolygwyd yn yr adroddiad hwn fod yn well gan wahanol grwpiau ffyrdd eraill efallai o ymgysylltu mewn ymddygiad democrataidd. Pe bai llywodraeth leol yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau, gallai helpu i dargedu'r grwpiau anodd eu cyrraedd hyn.

Addysg

- 6.5 Yr ail brif gasgliad yw bod addysg yn chwarae rôl fawr mewn ymgysylltu. Mae'n ymddangos i fod yn hwyluso adnewyddu democrataidd mewn sawl maes, er enghraifft gallai addysg ddinesig arwain at gynyddu troi allan i bleidleisio. Mae hyn yn bwysig oherwydd awgrymwyd y gallai effeithiau eilradd fod yn ffactor i egluro'r troi allan is mewn etholiadau cynghorau lleol (a'r Cynulliad Cenedlaethol) o'i gymharu ag Etholiadau Cyffredinol y DU. Gallai mwy o addysg am rôl llywodraeth leol a chodi ymwybyddiaeth o'r hyn y mae cynghorwyr lleol yn ei wneud hefyd hwyluso ac ysgogi pobl i ymgysylltu mwy mewn democratiaeth leol.
- 6.6 Dangoswyd hefyd fod addysgu pobl am faterion gwleidyddol yn creu diddordeb a gwella dealltwriaeth gan gynyddu ymwybyddiaeth wleidyddol a gwneud pobl yn fwy abl i wneud penderfyniadau gwybodus, gan felly gryfhau democratiaeth.
- 6.7 Gallai llywodraeth leol hefyd elwa o ymgyrchoedd ymwybyddiaeth sy'n ceisio creu dealltwriaeth well o rôl llywodraeth leol a sut y gall dinasyddion geisio atebion i'w problemau.

Argraffiadau pobl o'u dylanwad

- 6.8 Mae argraffiadau pobl o'u dylanwad yn cael ei weld yn gyson fel y drydedd ffactor sy'n dylanwadu ar gyfranogi mewn democratiaeth. Gellir gweld hyn yn yr ystyr ddinesig, lle mae prosiectau fel rhai sy'n ymwneud â chyllidebu cymunedol, yn hwyluso ymgysylltu drwy greu teimlad o berchnogaeth. Gellir hefyd ei weld yn yr ystyr etholiadol lle mae systemau pleidleisio fel y cyntaf i'r felin yn gallu arwain at ddadurthio a diffyg diddordeb mewn pleidleisio oherwydd yr argraff o ddiffyg dylanwad.
- 6.9 Gellid creu ymdeimlad cryfach o ddylanwad drwy weithgareddau fel cyllidebu cyfranogol, defnyddio e-ddeisebau a pholau piniwn ymgynghorol, gan felly arwain at fwy o ymgysylltu democrataidd. Gall yr iaith a ddefnyddir i gyfathrebu gyda dinasyddion hefyd fod yn bwerus i gyfleu'r dylanwad y gallai pobl ei gael pe byddent yn cyfranogi.

Ymchwil i'r dyfodol

- 6.10 Er y dystiolaeth gref mewn nifer o feysydd, mae hefyd rhai agweddau ar y llenyddiaeth lle mae bylchau neu dystiolaeth anghyson yn gwneud argymhellion yn anodd. Mae'r angen mwyaf amlwg o ran tystiolaeth yn ymwneud ag ailadrodd y canfyddiadau mewn cyd-destun perthnasol. Er enghraifft, gwyddom na ellir

cyffredinol i ymchwil gyda rhai 18-24 oed i bobl ifanc 16-18 oed, felly byddai'n ddefnyddiol ymchwilio i ffactorau sy'n benodol i'r grŵp oed dan sylw. Felly hefyd, nid oes llawer o ymchwil i ymgysylltu ar lefel llywodraeth genedlaethol, ond o gofio y gwyddom fod yna wahaniaethau o ran troi allan i bleidleisio a gwybodaeth am etholiadau lleol, byddai'n ddefnyddiol cael ymchwil benodol i ymgysylltu ar lefel llywodraeth leol. Maes arall lle gellid gwella'r dystiolaeth yw drwy wneud mwy o ymchwil i ddiwygio etholiadol neu ddemocrataidd arfaethedig yn defnyddio samplau cynrychiadol yn hytrach na rhai hunan-ddewisol. Mae dogfennau ymgynghori'n ddefnyddiol i ddeall barn unigolion a grwpiau budd, ond mae eu gwerth yn gyfyngedig o ran nad yw barn y bobl hyn (a'r ystadegau sy'n deillio o'r ymgynghoriad) yn gynrychiadol o'r boblogaeth ehangach, gan olygu bod grwpiau anoddach eu cyrraedd efallai'n cael eu gadael allan.

- 6.11 Byddai'n fuddiol deall y cysylltiad rhwng y diddordeb sylweddol sydd gan bobl ifanc ond y lefel gymharol isel o droi allan i bleidleisio. Yn yr ystyr ehangach, gallai hyn ymestyn i ddeall sut i harneisio ymgysylltu dinesig yn llwyddiannus a'i droi'n ymgysylltu democrataidd.

Dogfennau Cyfeiriol

Adler, R. P. & Goggin, J., 2005. What do we mean by 'civic engagement'? *Journal of Transformative Education*, 3(3), pp. 236-253.

Ariely, D., Bracha, A. & Meier, S., 2009. Doing good or doing well? Image motivation and monetary incentives in behaving prosocially. *American Economic Review*, 99(1), pp. 544-555.

Baum, M. A. & Jamison, A. S., 2006. The Oprah effect: How soft news helps inattentive citizens vote consistently. *The Journal of Politics*, 68(4), pp. 946-959.

BBC, 2003. [Inquiry in to low turnout](#).
[Cyrchwyd 30 Awst 2018].

Bechtel, M., Hangartner, D. & Schmid, L., 2017. Compulsory voting, habit formation and political participation. *Review of Economics and Statistics*.

Behavioural Insights Team, 2014. *EAST: Four simple ways to apply behavioural insights*, Llundain: Swyddfa'r Cabinet a Nesta.

Bergh, J., 2013. Does voting rights affect the political maturity of 16- and 17-year-olds? Findings from the 2011 Norwegian voting-age trial. *Electoral Studies*, Volume 32, pp. 50-100.

Birch, S., Gottfried, G. & Lodge, G., 2014. *Divided Democracy: Political inequality within the UK and why it matters*, s.l.: Institute for Public Policy Research.

Birdwell, J., Cadywould, C. & Reynolds, L., 2014. *Tune in, turn out*, London: Demos.

Blair, J. & Mathias, M., 2017. *Missing voices: How do people across Wales feel about politics?*, s.l.: Electoral Reform Society.

Blais, A., 2000. *To vote or not to vote*. Pittsburgh, PA: University of Pittsburgh Press.

Blakeley, G., 2010. Governing Ourselves: citizen participation and governance in Barcelona and Manchester. *International Journal of Urban and Regional Research*, 34(1).

Bochel, C. & Bochel, H., 2017. 'Reaching in'? The potential for e-petitions in local government in the United Kingdom. *Information, Communication & Society*, 20(5), pp. 683-669.

Boviard, T. & Loeffler, E., 2012. *We are all in this together: user and community co-production of public outcomes*, Birmingham: Institute of Local Government Studies.

Broomfield, J., 2013. *Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol 2012*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Burton, P. et al., 2004. *What works in community involvement in area based initiatives? A systematic review of the literature*, Online: Home Office.

- Cancela, J. & Geys, B., 2016. Explaining voter turnout: A meta-analysis of national and subnational elections. *Electoral Studies*, Volume 42, pp. 264-275.
- Curtice, J., 2012. *Etholiadau Llywodraeth Leol yr Alban 2012*, Llundain: Y Gymdeithas Diwygio Etholiadol.
- Cymdeithas Diwygio Etholiadol Yr Alban, 2018. *Response to the Scottish Government's consultation on electoral reform*, s.l.: Cymdeithas Diwygio Etholiadol Yr Alban.
- Cymdeithas Hansard, 2018. *Audit of Political Engagement 15 - The 2018 Report*, Llundain: Cymdeithas Hansard.
- Cymdeithas Seicolegol Prydain, 2016. *Behaviour change: Voter apathy*, s.l.: BPS.org.
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2018. *Creu Senedd i Gymru: Adroddiad Ymgynghori*, Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- Delli Carpini, M. X., 2004. Mediating Democratic Engagement: The Impact of Communications on Citizens' Involvement in Political and Civic Life. In: L. L. Kaid, ed. *Handbook of Political Communication Research*. London: Lawrence Erlbaum Associates, pp. 395-434.
- Donaldson, G., 2015. *Successful Futures; Independent review of curriculum and assessment arrangements in Wales*, Cardiff: Welsh Government.
- Eichorn, J., 2015. Debate: Lowering the voting age would increase youth engagement in politics. *Political Insights*, September, p. 22.
- Eichorn, J., 2018. Mobilisation through early activation and school engagement - the story from Scotland. *Journal of Youth Studies*, 21(8), pp. 1095-1110.
- Evans, D., 2017. *Wales's schools urgently need political participation lessons*, s.l.: WISERD.
- Fieldhouse, E. & Cutts, D., 2012. The companion effect: Household and local context and the turnout of young people. *The Journal of Politics*, 74(3), pp. 856-869.
- Firmstone, J. A. & Coleman, S., 2015. Public engagement in local government: the voice and influence of citizens in online communicative spaces. *Information, Communication and Society*, 18(6), pp. 680-695.
- Fowler, A., 2013. Electoral and Policy Consequences of Voter Turnout: Evidence from Compulsory Voting in Australia. *Quarterly Journal of Political Science*, Volume 8, pp. 159-182.
- Fujiwara, T., Meng, K. C. & Vogl, T., 2016. Estimating habit formation in voting. *American Economic Journal: Applied Economics*, Volume 4, pp. 160-188.
- Geddes, M., 2006. Partnership and the limits to local governance in England: Institutional analysis and neoliberalism.. *International Journal of Urban and Regional Research*, 30(1).

- Goedkoop, F. & Devine-Wright, P., 2016. Partnership or placation? The role of trust and justice in the shared ownership of renewable energy projects. *Energy Research and Social Science*, Volume 17, pp. 135-146.
- Green, D. & Shachar, R., 2000. Habit formation and political behaviour: Evidence of consuetude in voter turnout. *British Journal of Political Science*, 30(4), pp. 561-573.
- Griffiths, S., Foley, B. & Prendergrast, J., 2009. *Assertive citizens: New relationships in the public service*, London: The Social Market Foundation.
- Groenendijk, K., 2008. *Local voting rights for non-nationals in Europe: What we know and what we need to learn*, Nijmegen: Migration Policy Institute.
- Hambleton, R., 2004. *Beyond new public management - City leadership, democratic renewal and the politics of place*, Chicago: University of Illinois.
- Haq, J., 2008. Community participation: 'activists' or 'citizens'? *Participatory Learning and Action*, June, pp. 91-96.
- Haro-de-Rosario, A., Sáez-Martín, A. & Caba-Pérez, M. d. C., 2018. Using social media to enhance citizen engagement with local government: Twitter or Facebook?. *New Media & Society*, 20(1), pp. 29-49.
- Henn, M. & Foard, N., 2011. *Young people, political participation and trust in Britain*. Exeter, EPOP Annual Conference.
- Hoffman, M., León, G. & Lombardi, M., 2017. Compulsory voting, turnout, and government spending: Evidence from Austria. *Journal of Public Economics*, Volume 145, pp. 103-115.
- Holloway, L., 2013. *Power of the black vote in 2015: The changing face of England and Wales*, s.l.: Operation Black Vote.
- Holmes, B., 2011. *Citizens engagement in policy making and the design of public services*, s.l.: Politics and Public Administration Section, Australian Parliament.
- John, P. et al., 2010. *Nudge, nudge, think, think: using experiments to change civic behaviour*. 1st ed. s.l.:Bloomsbury Academic.
- Jones, H. & Holzinger, O., 2016. *Research briefing: 2016 assembly election results*, Cardiff: National Assembly for Wales.
- Keeley, H., Redley, M., Holland, A. J. & Clare, I. C. H., 2008. Participation in the 2005 general election by adults with intellectual disabilities. *Journal of Intellectual Disability Research*, 52(3), pp. 175-181.
- Llywodraeth Cymru, 2015. *Datganoli, democratiaeth a chyflawni: Gwella gwasanaethau cyhoeddus i bobl yng Nghymru*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
- Llywodraeth Cymru, 2018. *Diwygio Etholiadol ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru*, s.l.: s.n.

- Loader, B. D., 2007. *Young Citizens in the Digital Age: Political Engagement, Young People and New Media*. London: Routledge.
- Loeffler, E. & Boviard, T., 2017. From participation to co-production: Widening and deepening the contributions of citizens to public services and outcomes. In: E. & V. T. S. Ongaro, ed. *The Palgrave Handbook of Public Administration and Management in Europe*. s.l.:Springer, pp. 403-423.
- Macintosh, A., Malina, A. & Farrell, S., 2002. Digital democracy through electronic petitioning. In: W. J. McIver & A. K. Elmagarmid, eds. *Advances in digital government*. Springer, Boston, MA: Kluwer Academic Publishers, pp. 137-148.
- Matthews, H., 2001. Citizenship, youth councils, and young people's participation. *Journal of Youth Studies*, 4(3), pp. 299-318.
- McMillan, D. W. & Chaivs, D. M., 1986. Sense of community: A definition and theory. *Journal of community psychology*, Volume 14, pp. 6-23.
- Mergel, I., 2013. Social media adoption and resulting tactics in the US federal government. *Government Information Quarterly*, 30(2), pp. 123-130.
- Monkerud, L. C., 2007. *Organising Local Democracy: The Norwegian Experience*, Oslo: Series of Dissertations 3/2007, BI Norwegian School of Management.
- MORI, 2005. *Black and Minority Ethnic Survey*, s.l.: Y Comisiwn Etholiadol.
- Murphy, J. & Jones, K., 2018. *Local Government Candidates Survey 2017*, Cardiff: Welsh Government.
- Oishi, S., Diener, E. & Lucas, R. E., 2009. The optimum level of well-being: Can people be too happy?. In: E. Diener, ed. *The science of wellbeing*. Dordrecht: Springer, pp. 175-200.
- Oostveen, A.-M. & van de Besselaar, P., 2004. Internet voiting technologies and civic participation: The users' perspective. *The Public*, XI(1), pp. 61-78.
- Oxenham, S., 2017. [The rise of political apathy in two charts](#). [Accessed 20 09 2018].
- Panagiotopoulos, P. & Al-Debei, M. M., 2010. Engaging with citizens online: Understanding the role of ePetitioning in local government democracy. *Internet, politics, policy*, Volume 16, pp. 16-17.
- Pratchett, L., 1999. Introduction: Defining democratic renewal. *Local Government Studies*, 25(4), pp. 1-18.
- Pultzer, E., 2002. Becoming a habitual voter: Inertia, resources and growth in young adulthood. *American Political Science Review*, 96(1), pp. 41-56.
- Pwyllgor Deisebau, 2018. *Gostwng yr oed pleidleisio i 16*, Caerdydd: Gwasanaeth Ymchwil y Senedd.

Pwyllgor Dethol Ty'r Cyffredin ar Weinyddiaeth Gyhoeddus, 2011. *The big society: Seventeenth report of session*, Llundain: Ty'r Cyffredin.

Rai, S., 2008. *Routes and Barriers to Citizen Governance*, York: Joseph Rountree Foundation.

Roker, D. & Eden, K., 2002. '*...Doing something*': *Young people as social actors*. Leicester: National Youth Agency.

Ruedin, D., 2018. Participation in local elections: Why don't immigrants vote more?. *Parliamentary Affairs*, 71(2), pp. 243-262.

Schakel, A. H. & Jeffrey, C., 2013. Are regional elections really 'second-order' elections?. *Regional Studies*, 47(3), pp. 323-341.

Scully, R., Jones, R. W. & Trystan, D., 2004. Turnout, participation and legitimacy in post-devolution Wales. *British Journal of Political Science*, 34(3), pp. 519-537.

Seidle, F. L., 2015. Local voting rights for non-nationals: Experience in Sweden, the Netherlands and Belgium. *International Migration & Integration*, Volume 16, pp. 27-42.

Sgueo, G., 2016. *Participatory Budgeting: An innovative approach*, Brussels: European Parliamentary Research.

Slovak, M. & Vassil, K., 2018. Could internet voting halt declining electoral turnout? New evidence that e-voting is habit forming. *Policy and Internet*, 10(1), pp. 4-21.

Sunderland, E., 2002. *Improving Local democracy in Wales*, s.l.: Commission on Local Government Electoral Arrangements.

The Hague Academy for Local Government, 2018. [7 Conditions for Successful Citizen Participation](#).

[Cyrchwyd 24 Medi 2018].

Tsai, L. L., McMurry, N. & Rajeswaran, S., 2018. *The effect of civic leadership training on citizen engagement and government responsiveness: experimental evidence from the Philippines*, Massachusetts: MIT Gov/Lab.

van Rijn, S. & Tissen, R., 2013. *A critical look at citizen participation processes in knowledge-based societies within the framework of representative (parliamentary) democracies*. s.l., Management, Knowledge and Learning International Conference.

Varnham, S., Evers, M., Booth, T. & Avgoustinos, C., 2014. Democracy in Schools: Encouraging responsibility and citizenship through student participation in school decision making. *International Journal of Law and Education*, 19(1), pp. 23-42.

Victorian Electoral Commission, 2016. *2016 Local Government Elections*, Melbourne: Victorian Electoral Commission.

- Wagner, M., Johann, D. & Kritzing, S., 2012. Voting at 16: Turnout and the quality of vote choice. *Electoral Studies*, Volume 31, pp. 372-383.
- Wampler, B., McNulty, S. & Touchton, M., 2018. [*Participatory Budgeting: Spreading Across the Globe*](#).
[Accessed 31 August 2018].
- Wass, H., Blais, A., Morin-Chasse, A. & Weide, M., 2015. Engaging immigrants? Examining the correlates of electoral participation among voters with migration backgrounds. *Journal of Elections, Public Opinion and Parties*, 25(4), pp. 407-424.
- Weinschenck, A. C. & Dawes, C. T., 2018. Genes, personality traits, and the sense of civic duty. *American Politics Research*, 46(1), pp. 47-76.
- Williams, E., St. Denny, E. & Bristow, D., 2017. *Participatory Budgeting: An Evidence Review*, Cardiff: Public Policy Institute for Wales.
- WISERD, 2016. [*What's devolution got to do with it? Youth \(dis\)engagement in the run-up to the EU Referendum*](#).
[Cyrchwyd 8 Hydref 2018].
- WISERD, 2018a. [*Causes of falling youth turnout: Changing conceptions of citizenship*](#).
[Cyrchwyd 8 Hydref 2018].
- WISERD, 2018b. [*Inequalities in youth turnout: it's not only age that matters*](#).
[Cyrchwyd 9 Hydref 2018].
- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2017. *Pwy sy'n rhedeg Cymru? 2017*, s.l.: Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.
- Y Comisiwn Etholiadol, 2003. *Equal access to democracy*, Llundain: Y Comisiwn Etholiadol.
- Y Comisiwn Etholiadol, 2014a. *Scottish independence referendum research: Post-polling day opinion research report*, s.l.: Y Comisiwn Etholiadol.
- Y Comisiwn Etholiadol, 2014b. *The quality of the 2014 electoral registers in Great Britain*, Llundain: Y Comisiwn Etholiadol.
- Y Comisiwn Etholiadol, 2016. *Automatic Registration for UK Elections*, Llundain: Y Comisiwn Etholiadol.
- Y Comisiwn Etholiadol, 2017a. *Elections for everyone: Experiences of people with disabilities at the 8 June 2017 UK Parliamentary general election*, Llundain: Y Comisiwn Etholiadol.
- Y Comisiwn Etholiadol, 2017b. [*Etholiadau llywodraeth leol 2017 yng Nghymru*](#). [Ar lein]
[Cyrchwyd 29 Medi 2018].
- Y Comisiwn Etholiadol, 2017c. *UK Parliamentary General Election, June 2017*, Llundain: Y Comisiwn Etholiadol.

Y Comisiwn Etholiadol, 2017d. *Voting in 2017: Understanding public attitudes towards elections and voting*, s.l.: Y Comisiwn Etholiadol.

Y Comisiwn Etholiadol, 2018. [Who is eligible to vote at a local government election?](#). [Cyrchwyd 3 Hydref 2018].

Y Gymdeithas Diwygio Etholiadol, 2017. *Ymateb i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar 'Ddiwygio Etholiadol yng Nghymru'*, s.l.: Y Gymdeithas Diwygio Etholiadol.

Y Gymdeithas Diwygio Etholiadol, 2018. *Civic duty: The conservative case for votes at 16&17*, Llundain: Y Gymdeithas Diwygio Etholiadol.

Y Gymdeithas Diwygio Etholiadol, n.d. [Local democracy: Voters in England and Wales are being let down by their local democracy](#). [Cyrchwyd 10 Hydref 2018].

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2007. [The Governnace of Britain](#). [Cyrchwyd 26 Medi 2018].

Yang, K., 2005. Public administrators' trust in citizens: A missing link in citizen involvement efforts. *Public Administration Review*, 65(3), pp. 253-285.

Zeglovits, E. & Aichholzer, J., 2014. Are people more inclined to vote at 16 than at 18? Evidence for first time voting boost among 16- to 25-year-olds in Austria. *Journal of Elections, Public Opinion and Parties*, 24(3), pp. 351-361.

Atodiad A: Methodoleg

Mae adrannau un a dau'r adroddiad hwn yn seiliedig ar chwiliad o'r llenyddiaeth a wnaed yn Awst 2018, a'i sgôp heb ei gyfyngu gan ddaearyddiaeth na dyddiad cyhoeddi. Y term chwilio allweddol oedd 'democratic renewal', ynghyd â thermau chwilio eraill fel 'civic engagement', 'democratic delivery' a 'democratic engagement'. Aseswyd y llenyddiaeth ar sail a ydoedd yn hygyrch i Lywodraeth Cymru, pa mor berthnasol oedd y pwnc neu'r testun ac a ystyriwyd bod y fethodoleg yn gadarn.

Mae adran tri'r adroddiad hwn yn seiliedig ar chwiliad o'r llenyddiaeth a wnaed rhwng Ebrill ac Awst 2015, wedi'i gyfyngu o ran dyddiad i ymchwil a gyhoeddwyd ar ôl 2004. O ystyried natur hanesyddol y chwiliad llenyddiaeth hwn, cafodd ei ailadrodd yn Awst 2018 i sicrhau bod tystiolaeth fwy diweddar yn cael ei chynnwys. Sgôp daearyddol y chwiliad hwn oedd yr Unol Daleithiau, Awstralia, y Deyrnas Unedig, Seland Newydd a Norwy. Roedd y termau chwilio allweddol yn cynnwys:

- Dulliau / adnoddau / offerynnau / systemau / strwythurau ar gyfer NEU effaith NEU nodweddion y rhai sy'n ymwneud ag;
- AC ymgysylltu democrataidd NEU ymgysylltu dinesig NEU gyfranogi dinesig NEU adnewyddu democrataidd NEU fudd dinesig NEU chwarae rhan / chwarae rhan ddinesig NEU gynnwys democrataidd NEU rymuso dinesig NEU weithredu dinesig NEU ddemocrataidd cyfranogol Llywodraeth Leol.

Yn dilyn hyn, aseswyd y llenyddiaeth a'i chynnwys neu ei gwrthod ar sail y canlynol:

- Pa mor berthnasol ydoedd i'r pwnc dan sylw;
- Methodoleg glir a chadarn;
- Nodau clir a ddefnyddiwyd fel egwyddorion arweiniol ar gyfer y papur.

Mae adrannau pedwar a phump yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ddilyniant o chwiliadau llenyddiaeth byr a wnaed yn Awst a Medi 2018, gyda geiriau a phapurau allweddol wedi eu casglu drwy ddulliau 'caseg eira'.